# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 558 · **Tachwedd 2024** · 70c

# Ymlaen i 100!

## Dathlu 50 - carreg filltir nodedig yn hanes y papur

**Dymunwn fel swyddogion a golygyddion ddiolch yn fawr iawn i'r holl gyfranwyr a'r cefnogwyr gydol y blynyddoedd - yn noddwyr, hysbysebwyr, colofnwyr, casglwyr newyddion, dosbarthwyr, gwerthwyr a darllenwyr.**




**YN Y RHIFYN HWN:**



**Antur Osian yn Guatemala**



**Iaith Pesda**



**Noson i'w chofio**

# Llais Ogwan

## Rhif 557
## Tachwedd 2024


**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Fflur Roberts**
(07767 473209)
fflur_roberts@hotmail.com

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 /
07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com


### Y Llais drwy'r post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Ieuan Wyn**.

Y golygydd ym mis Rhagfyr fydd **Rhodri Llŷr Evans,**2 Rhos y Nant, Bethesda, LL58 3PP
07713 865452
E-bost: Rhodri.llyr.evans@gmail.com
Pob deunydd i law erbyn dydd Sadwrn, **30 Tachwedd** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu Nos Iau, 19 Rhagfyr yn llawr uchaf Canolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW: NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.**

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain**
Yn anffodus, oherwydd cynnydd aruthrol diweddar yng nghostau postio, 'rydym wedi cael ein gorfodi i godi ein pris o'r £27 arfaethedig i £35 am y flwyddyn 2024.

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £2.30 | Di-enw. |
| £20.00 | Vivien a Gwyneth Williams, Tregarth. |
| £6.50 | Helen Roberts, Abercaseg, Bethesda. |
| £9.75 | Mân roddion. |
| £50.00 | Alwen Hughes, Caeathro. |
| £10.00 | Er cof am Gwilym Llewelyn Williams, Maes Caradog, oddi wrth y teulu. |

**Diolch yn fawr.**

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

# Dyddiadur y Dyffryn

**Tachwedd**
15 Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.
16 Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00.
20 Ffair Nadolig Bethesda. Neuadd Ogwen. 5.00 - 8.00.
22 Cyngerdd Elvis yn Fyw. Clwb Criced Bethesda am 7.00.
24 Cymanfa Garolau yn Shiloh Newydd, Tregarth am 7.30
25 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
25 Te Bach. Festri Carmel, Llanllechid. 2.30 – 4.00.

**Rhagfyr**
02 Merched y Wawr Tregarth. Cinio Nadolig. Clwb Rygbi Bethesda am 7.00.
03 Ffair Nadolig Capel Bethlehem Talybont. Y Festri am 6.30.
07 Ffair 'Dolig Eglwys Glanogwen. 1.00 – 4.00.
09 Clwb Coffi Talybont, Bwffe Nadolig. Festri Bethlehem am 11.30.
09 Cymdeithas Hanes D. Ogwen. Dr. Nia Jones. Festri Jerusalem.
12 Y Gymdeithas. Dathlu'r Nadolig yng nghwmni'r Aelodau. Festri Jerusalem am 7.00.
14 Eglwys Glanogwen. Gwyl Angylion. Llys Dafydd 5.00. Yr Eglwys 6.00.
15 Oedfa Nadolig Gymunedol. Capel Jerusalem, Bethesda am 7.00.
19 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Llawr Uchaf Cefnfaes am 6.45.
21 Messiah, Handel. Capel Jerusalem am 6.00yh
24 Gwasnaeth Wrth y Preseb. Eglwys Glanogwen am 4.00.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Tachwedd**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (56) | Ann Evans, Penisarwaun. |
| £20.00 | (26) | Elna Bullock, Mynydd Llandygái. |
| £10.00 | (72) | Myrddyn Hughes, Llanfairfechan. |
| £5.00 | (83) | Nigel Beidas, Tregarth. |


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

# Antur yn Guatemala

Ar Hydref 7fed, darlledwyd sgwrs ddiddorol iawn gydag Osian Curig o Fynydd Llandygái ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru. Mae Osian yn astudio Seicoleg ym Mhrifysgol Glasgow ar hyn o bryd, ond yn ystod yr haf cafodd ei ddethol fel un o griw o chwech o fyfyrwyr allan o 150 ar draws prifysgolion Gwledydd Prydain i gymryd rhan yn y British Universities Kayaking Expedition yn 2024 i deithio afonydd anghysbell ym mynyddoedd uchel de Guatemala yng nghanolbarth America. Yr her oedd teithio mewn caiac ar hyd afonydd serth mewn mynyddoedd 3000 metr o uchder ble nad oedd neb wedi ceisio mentro o'r blaen.

Mae Osian yn fab i Glenn ac Elin Sanderson o Fynydd Llandygái, ac yn ŵyr i Ann a Gareth Roberts o Fangor. Bu'n dysgu caiacio ar Lyn Padarn yn Llanberis ac ar Afon Ogwen. Mae Osian hefyd wedi bod yn gweithio fel tywysydd rafftio ar Afon Tryweryn ac yn dringo a chaiacio yn yr Alpau a Slofenia yn ystod gwyliau'r haf.

Disgrifiodd Osian y teithiau hir a heriol trwy goedwigoedd trwchus i gyrraedd yr afonydd yn ardal y mynyddoedd Sierra de los Cuchumatanes yn ne Guatemala. Cymerodd ddau ddiwrnod i yrru i'r pentref agosaf at ardal yr afonydd yn y mynyddoedd deheuol, ac yna ddau ddiwrnod arall i yrru ar hyd draciau trwy'r coedwigoedd i gyrraedd man hwylus ger yr afonydd cyn i'r criw orfod rhentu mulod a cheffylau i gludo'r offer am ddiwrnod o gerdded i gyrraedd y man cychwyn ar gyfer lansio'r caiaciau.

Nid oedd croeso i'w gael gan rai o'r brodorion Mayan. Er mai Sbaeneg yw'r iaith swyddogol yn Guatemala, mae 25 o ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan y llwythau. Cafodd y criw eu herwgipio a'u caethiwo am ddyddiau gan y brodorion pan wnaethant aros mewn pentref anghysbell. Roedd y brodorion wedi eu hamgylchynu



gyda machetes cyn eu caethiwo mewn cwt. Bu rhaid i Osian gysylltu gyda'u gyrwyr trwy neges GPS i alw am gymorth i negydu gyda'r brodorion. Bu rhaid goresgyn y problemau cyfathrebu gan mai Mayan oedd iaith y brodorion a oedd yn gweld yr anturiaethwyr gwyn fel estroniaid dieithr yn yr ardal hon o Guatemala.

Roedd yn amlwg o'r sgwrs bod Osian wedi cael profiadau heriol wrth deithio yn yr ardal fynyddig ac anghysbell hon i fapio cwrs yr afonydd ble roedd llif yr afonydd yn mesur gradd 1 i 5 trwy'r ceunentydd dyfnion.

Hyfryd oedd clywed bachgen o Bethesda yn siarad yn raenus am ei brofiadau anturus. Pob dymuniad da i Osian gyda'i astudiaethau ym Mhrifysgol Glasgow, a braf fuasai clywed mwy o hanesion am ei anturiaethau a'i ddiddordeb mewn teithio mewn caiac yn y dyfodol.

**Gareth Llwyd**

# Cyngor Cymuned Llandygái

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor ar nos Iau, 17eg Hydref yng Nghanolfan Tregarth.

**Cyflwr Pont Tŵr**

Ers nifer o fisoedd, mae'r Cyngor Cymuned wedi bod yn pryderu am gyflwr y bont, ac wedi adrodd i Gyngor Gwynedd nifer o weithiau. Adroddwyd fod y gwaith cynnal ar y gweill, ond ddim yn siŵr pryd fydd y gwaith yn cael ei gwblhau. Mi fydd y Cyngor Cymuned yn cadw llygad ar y sefyllfa.

**Llwybr Rhif 3 - Siambrau Gwynion heibio Fferm Lôn Isaf i Dyrpeg Lôn Isaf**

Cafodd y mater hwn ei godi yn wreiddiol ym mis Ebrill 2020, ac mae'r Cyngor yn falch o gadarnhau fod y gwelliannau wedi cael eu cwblhau.

**Cynlluniau Arfaethedig Cae Pêl-droed Tregarth**

Yn dilyn cyfarfod ar y safle gyda Mark Hughes, penderfynwyd gwahodd Mark i'r cyfarfod hwn i drafod y cynlluniau arfaethedig gyda gweddill y Cyngor. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd cefnogi'r cynllun mewn egwyddor, a chytunwyd y bydd Mark yn cadw mewn cyswllt agos gyda'r Cyngor, ac i roi diweddariad ar y cynllun pan fydd angen. Y Clerc a Mark i edrych ar y posibilrwydd o osod y pyst gôl yn ôl ar y cae dros dro.

Mi fydd y cyfarfod cyffredinol nesaf yn cael ei gynnal ar yr 21ain o Dachwedd am 18.30 yn rhithiol dros Zoom.

# Calendr Llais Ogwan 2025

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Calendr Llais Ogwan 2025 wedi ei gyhoeddi ac ar gael i'w brynu yn y siopau a gan eich gwerthwyr lleol. Mae'r Calendr yn cynnwys lluniau lliw hardd o olygfeydd o amgylch ardal Dyffryn Ogwen gan gyfranwyr lleol unwaith eto eleni.

Hoffem ddiolch eto eleni am gymorth gan Glwb Camera Dyffryn Ogwen i ddenu a dewis y lluniau ar gyfer y Calendr a diolchwn hefyd i Wasg Carreg Gwalch am eu gwaith wrth gysodi ac argraffu'r Calendr.

Bydd y Calendr yn cael ei werthu trwy'r siopau yn bennaf, ond, os oes rhywun yn fodlon gwerthu cyflenwad, mae croeso iddynt gysylltu gyda Mr Walter Williams gan mai ef sy'n gyfrifol am ddosbarthu'r Calendr.

Gallwch gysylltu gyda Walter ar 01248 601167 neu trwy e-bost: waltermenai@yahoo.co.uk.

Bydd y Calendr ar werth am £4.50 eto eleni yn y siopau canlynol:

- Siop Ogwen, Bethesda
- Londis, Bethesda
- Barbwr Ogwen, Stryd Fawr, Bethesda
- Caffi Seren, Bethesda
- Post Rachub
- Siop yn Llys Y Gwynt
- Siop Na Nog, Caernarfon
- Awen Menai, Porthaethwy

Gellir danfon y Calendr trwy'r post am bris ychwanegol.

Ymholiadau archebion at Now Jones:
01248 600184
post@llaisogwan.com



# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid,
Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlo**

Anfonwn ein cydymdeimlad at Selwyn ac Ann Jones, 5 Bron Arfon. Bu farw brawd i Selwyn, sef Vernon Jones o'r Gerlan, yn ystod mis Hydref. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu oll yn eu profedigaeth. Mae'r teulu wedi wynebu sawl profedigaeth yn ystod y misoedd diwethaf ac anfonwn ein cofion atynt i gyd.

**Busnesau lleol**

Mae dau o funesau lleol yn wynebu newidiadau dros yr wythnosau nesaf. Mae'r Royal Oak wedi cael newidiadau garw gan y perchennog newydd, Ryan O'Neill. Disgwylir y bydd y gwaith yn gorffen cyn diwedd y flwyddyn. Gyda'r *Llais* ar fin mynd i'r wasg deallwn fod y siop a'r post wedi ei werthu a bydd perchnogion newydd yno cyn y Nadolig. Cawn fwy o wybodaeth y tro nesaf.

**Cofion**

Anfonwn ein cofion at sawl un o'r pentref sydd wedi treulio cyfnodau yn yr ysbyty. Yn eu plith mae Eirwyn Thomas, Bron Arfon, Gareth Joes, Tan y Gaer, a Denise Roberts, Ffordd Llanllechid.

## Carmel Llanllechid

Mi gawsom ni wasanaeth Diolchgarwch am y Cynhaeaf yn ystod y mis diwethaf. Y plant a'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan drwy ganu emynau a darllen rhannau addas o'r Beibl. Mi gawsom ni oedfa hwyliog a bendithiol yn eu cwmni nhw. Roedd y plant wedi gwneud lluniau i'w harddangos o gwmpas y capel ac roedd yr ieuenctid wedi gosod blodau, ffrwythau, llysiau a bara i addurno'r capel. Cafwyd casgliad o £200 i'w roi tuag at apêl "Ffynhonnau Byw" Undeb yr Annibynwyr Cymraeg drwy gyfrwng Cymorth Cristnogol.



**Y plant a'r bobl ifanc yn y sêt fawr.**



**Charmaine gyda'r plant wrth ddrws yr Ysgol Sul.**

Gwasanaethau (am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)

Tachwedd 17: Mr Glyn Tomos.
Tachwedd 24: Uno yng Nghapel Emaus, Bangor am 6.30.
Rhagfyr 01: Parchg. Alan Spencer.
Rhagfyr 08: Parchg. Nerys Griffiths.
Rhagfyr 15: Parchg. R.O. Jones.
Ysgol Sul am 10.30.
Clwb Dwylo Prysur ar nos Wener am 6.30.

CROESO CYNNES I BAWB

**CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID**



**Criw brwdfrydig yn ymchwilio i hanes teuluol!**

Croesawyd Mair Read a Dwynwen Mather draw i'r Clwb Criced yn ddiweddar i sôn am Gymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd. Cymdeithas yw hon a sefydlwyd ym 1980 i gofnodi a threfnu dogfennau o ddata hanesyddol sy'n gysylltiedig ag ardaloedd Môn, Arfon a Meirion, er mwyn cynorthwyo pobol i ddarganfod hanes teuluol. Mae ganddynt fynediad at ddogfennau cyfrifiad, cofrestrau plwyf, rhestrau genedigaethau, priodasau a marwolaethau lleol, yn ogystal ag ewyllysiau! Maent yn dibynnu ar drigolion lleol i gynorthwyo gyda rhannau helaeth o'r gwaith, a rhoddwyd teyrnged arbennig i André Lomozik am ei waith trylwyr yn cofnodi arysgrifau cerrig beddi'r ardal.

Mae'r gymdeithas yn cyfarfod yn fisol yn Llyfrgell Caernarfon, ac maent yn cyhoeddi cylchgrawn yn rheolaidd. Maent bellach wedi sefydlu gwefan, a gellir gweld holl fanylion eu prosiectau ar y wefan honno. Diolch yn fawr i Mair a Dwynwen am ddod â chynifer o ddogfennau gyda nhw i'r cyfarfod. Bu trafod mawr ar ddiwedd y cyfarfod, a nifer helaeth wedi cael modd i fyw yn ymchwilio drwy'r dogfennau! Cofiwch am ein cyfarfod nesaf ar y 27ain o Dachwedd pan fydd Andrê Lomozik yn trafod 'Mynwenta a Chofnodion Diddorol yn yr Ardal.'

### CLWB HANES RACHUB A LLANLLECHID

**Nos Fercher, Tachwedd 27ain 2024**
am 7 o'r gloch yn y Clwb Criced a Bowlio.
Bydd sgwrs gan André Lomozik

**'Mynwenta a Chofnodion Diddorol yn yr Ardal'**
**CROESO CYNNES!**

# YSGOL LLANLLECHID

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau i Mrs Llinos Wilson am wellhad buan. Pawb yn cofio atat.

**Beicio Blwyddyn 6**
Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ennill tystysgrifau Beicio Lefel 2.

**Diolchgarwch**
Yn ôl ein harfer, cynhaliwyd cyflwyniadau diolchgarwch i rieni a ffrindiau'r ysgol. Roedd y neuadd dan ei sang a phob disgybl yn cymryd rhan o'r plant bach Meithrin i'r plant hynaf. Cafwyd awr a hanner o adloniant o safon uchel a'r plantos wrth eu boddau yn morio canu! Diolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith diwyd ac i Mrs Delyth Humphreys am gyfeilio i'r cyfan oll.

**Carys Ofalus**
Bu'r plant ieuengaf yn derbyn sesiynau ar sut i groesi'r lôn yn ddiogel, gyda chymorth y gath, Carys Ofalus. Gwersi pwysig. Diolch yn fawr.

**Plas Ogwen**
Diolch i Mrs Sharon Williams am y croeso cynnes ym Mhlas Ogwen. Bu'n fraint cael ymweld â'r trigolion, a hyfryd gweld ein plantos yn sgwrsio hefo hwn a'r llall, ac ambell un yn cael cyfle i ddweud 'helo' wrth eu nain, neu eu hen nain. Cafwyd cyfle i ganu amrywiaeth o ganeuon, a hyfryd oedd gweld pawb yn ymuno i ganu'r hen emynau, fel *Calon Lan*! Diolch am y croeso cynnes.

**Tîm Rygbi Eryri**
Llongyfarchiadau i Elis Pritchard-Roberts, Alfie Mildoon a Matti Roberts ar gael eu dewis i chwarae i dîm rygbi Eryri! Gwych, hogiau!

**Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth**
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn neuadd yr ysgol yn trin a thrafod hiliaeth. Rhaid canmol y disgyblion am eu hymatebion aeddfed.

**Teithiau Cerdded**
Mae ein teithiau cerdded yn parhau, a chafodd y disgyblion hynaf gyfle i gerdded o Abergwyngregyn yn ôl i Rachub. Diolch i Bartneriaeth Ogwen am gael benthyg y bysus mini i gludo'r plantos. Diolch hefyd i Mr Stephen Jones am arwain. Bu dosbarth Mr Sion Llywelyn ar gopa Moel Faban ac at droed Moel Wnion. Diwrnod gwerth chweil a chyfleoedd euraid i ddysgu am yr ardal leol.

**Jamaica**
Braint oedd treulio amser gyda'r Cyfarwyddwr Addysg Barrington Richardson o Clandon yn Jamaica. Cafwyd cyfle i addysgu am y system addysg yn y wlad, a dysgu mwy am yr hanes a'r cysylltiad rhwng y llechi a'r planhigfeydd siwgr. Mae'r ysgol yn parhau â'r gwaith prosiect 'Adeiladu Pontydd'.




**Llwyddiant Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed y genethod ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth bêl-droed Eryri. Buddugwyr! Da iawn chi, genod! Daliwch ati!



**Noson Bingo**
Roedd Bingo'r Hydref yn llwyddiant ysgubol; diolch i'r Pwyllgor Rhieni / Athrawon am eu gwaith. Diolch arbennig i Mrs Ceri Evans, y Cadeirydd, am gydgordio popeth mewn modd hwylus. Roedd cyfraniad Mr Iwan Charles yn fendigedig, ac yn sicr byddwn yn gofyn y tro nesaf eto iddo alw'r rhifau i ni! Diolch i bawb am ein cefnogi. Gwnaethpwyd elw o £872.70, sy'n swm arbennig. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd!

**Antur Waunfawr**
Llawer o ddiolch i chi, rieni, am fod mor barod i ddod â dillad ail-law i'r ysgol er mwyn i ni gael eu hailgylchu drwy gynllun y Warws Werdd gan Antur Waunfawr. Casglwyd llond fan o fagiau, a chawn glywed yn y man faint o arian fydd yn cael ei gyflwyno i'r ysgol yn sgil hyn. Llawer o ddiolch i bawb.

**Anrheg Er Cof**
Derbyniodd yr ysgol daleb i'w gwario yn Siop Ogwen ar lyfrau Cymraeg. Llawer iawn o ddiolch i Richard Parry am gyflwyno'r rhodd garedig hon i'r ysgol ar ran y diweddar Brenda Wyn Jones. Mae gennym atgofion lu o Brenda Wyn Jones yn dod i'r ysgol i drafod rhai o'i llyfrau e.e *Sais ydio Miss!* a *Bwli a Bradwr*. Diolchwn o waelod calon am y rhodd, a choffa annwyl am wraig arbennig.

**Rhodd o Allweddellau**
Mae'r Nadolig wedi dod yn fuan eleni! Braint oedd croesawu Anita Thomas i'r ysgol i gyflwyno allweddell werthfawr i'r ysgol. Gan fod Côr Rygbi Gogledd Cymru wedi dirwyn i ben, penderfynodd y pwyllgor mai ein hysgol ni oedd i dderbyn y allweddell! Cofiwn am yr amseroedd da pan fu'r côr yma yn cyd-ganu gyda chôr yr ysgol gyda'r arweinydd Geraint Roberts, ac Angela Roberts yn cyfeilio. Cofiwn hefyd am y daith i Fflandrys. Diolchwn o waelod calon am yr haelioni tuag atom. Gwerthfawrogwn y rhodd yn fawr – hynod ddefnyddiol!

**Storïwr**
Braint oedd croesawu Iwan Charles, tad Arthur Ac Ela, i'r ysgol at ein disgyblion hynaf yn ddiweddar. Roedd y disgyblion wedi eu cyfareddu gwrando ar Iwan Charles yn adrodd storïau Cymraeg, gyda'i lais dihafal yn portreadu gwahanol gymeriadau. Llawer o ddiolch, a brysiwch yn ôl yn fuan!

**Disgo Calan Gaeaf**
Cafwyd sbort ar ddiwrnod ein disgo Calan Gaeaf, lle daeth pawb i'r ysgol mewn gwisgoedd o bob lliw a llun! Diolch i Efan Electro am wneud ei waith fel DJ hynod ddawnus!

**Heddlu**
Diolch i PC Dave Griffiths am ddod draw i siarad hefo'n plant ieuengaf am ddiogelwch y ffyrdd. Diolch arbennig am ddod a'r car heddlu ar yr iard. Profiad a hanner oedd cael eistedd ynddo a throi'r goleuadau glas ymlaen!

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU (01248 354280)
ionawynbangor@gmail.com

### Eglwys Sant Tegai

**Diwedd tymor ymwelwyr i'r Eglwys**
Mae'r eglwys ar gau i ymwelwyr tan Pasg 2025 yn dilyn tymor llwyddiannus yn y cynllun cenedlaethol Eglwysi Agored. Diolchwn i Raymond a Pauline Edwards am eu ffyddlondeb dyddiol i agor a chau drws yr adeilad. Wrth gwrs, bydd yr eglwys ar agor ar gyfer ein gwasanaethau.


**Adferiad buan**
Gyrrwn ein dymuniadau gorau i'r Parch. Ddr Gareth Lloyd, ein Ficer, sydd yn cymryd absenoldeb hir dymor o'i waith ar sail iechyd. Gyrrwn ddymuniadau gorau i Geraint Gill sy'n derbyn triniaethau rheolaidd yn yr ysbyty. Gobeithio clywed yn fuan dy fod yn teimlo'n well, Geraint! Cofion annwyl hefyd at Helen Gill, Liz Jones, Wendy Jones a Jan Roberts wrth iddynt barhau gyda'u triniaeth.

**Llongyfarchiadau**
Braf yw cael cyhoeddi fod Angus, mab Elaine Coyne, un o'n cynulleidfa, newydd dderbyn doethuriaeth. Da iawn chdi, Angus. Rydym yn falch o glywed am dy lwyddiant!

**Gwaith ar y Clochdy**
Y mis yma mae'r cwmni o Fethesda, Highlife Rope Access Ltd, yn brysur yn adnewyddu'r plwm ar do y tŵr fel rhan o'r ymgyrch i atal dŵr dreiddio i mewn i'r adeilad. Y cam nesaf yn ystod 2025 fydd sicrhau'r ffenestri yn yr ystafell canu clychau rhag gwynt a glaw, ond yn y cyfamser, croesi bysedd fyddwn y bydd y plwm newydd yn gwella'r sefyllfa yn sylweddol!

**Sul y Cofio Tachwedd 10fed 2024**
Erbyn cyhoeddiad y *Llais Ogwan* yma bydd cynulleidfa St Tegai wedi ymuno â chynulleidfa Sts Fair (Gelli) Tregarth i gymryd rhan yng ngwasanaeth y Cofio. Roedd y gwasanaeth yn dechrau am 9.30 yn Eglwys Gelli ac yn dilyn wrth y giât ar gyfer Seremoni'r Cofio. Ar ddydd y Cadoediad, Tachwedd 11eg canodd clychau St Tegai eu teyrnged unigryw i hogiau'r ardal ar ôl y 2 funud o dawelwch arferol. Daeth rhai o ddisgyblion yr ysgol eglwys, Ysgol Llandygái, allan i'r buarth i wrando a rhannu yn y Cofio

**Archesgob John Williams (John Iorc)**
Mae llyfr wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar sy'n rhoi braslun o fywyd, gwaith ac anturiaethau'r Archesgob John Williams: *A New Song. A Life of John Williams of Conwy 1582 -1650*. Fel y gwyddoch, mae John Iorc, fel y'i gelwir yn yr ardal, wedi ei gladdu yn yr eglwys a gwelir ei gofeb ar y wal dde wrth yr allor. Ysgrifennwyd y llyfr gan Vicky Macdonald o Ddeganwy sydd wedi cymryd diddordeb byw yng nghymeriad cymhleth a dadleuol y bachgen bach o Gonwy a gododd i uchelfannau'r eglwys a'r llys yn nheyrnasiad Iago 1af ond a ddisgynnodd mewn ffafr ar ôl digio Siarl 1af. Mae hi'n stori werth ei darllen, ffrwyth ymchwil helaeth! Os dymunwch gopi o'r llyfr, cysylltwch ag Ann E. Williams annacoed@hotmail.com er mwyn ei sicrhau! Syniad ar gyfer anrheg Nadolig i rywun efallai? £5 y copi er budd yr eglwys.




**Apêl Nadolig 2024**
A fuasech eto eleni yn ystyried rhoi anrheg Nadolig i Eglwys St Tegai i sicrhau ein dyfodol ariannol? Derbynnir rhoddion at Apêl y Nadolig yn ddiolchgar fel arian parod ym mlwch postio unrhyw swyddog eglwys, mewn siec drwy'r post (yn daladwy i Llandegai Church) neu drosglwyddiad banc (Cyfrif yr Eglwys: 30-90-43 00098435. Os gwelwch yn dda, gadewch i ni wybod os ydych yn gwneud trosglwyddiad banc). Buasai'r Trysorydd yn gwerthfawrogi pe buasech yn cynnwys eich enw, cyfeiriad a chôd post llawn. Mae cyfraniad Cymorth Rhodd yn codi gwerth eich arian o 25%. I dorri i lawr ar ymweliadau banc, dylai pob rhodd Nadolig gyrraedd cyn diwedd Rhagfyr 2024, os gwelwch yn dda.
Ann E Williams, Warden y Ficer, Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor Gwynedd LL57 3EF *01248600719 annacoed@hotmail.com*
Edmond Douglas Pennant, Warden y Bobl a Thrysorydd, Drws Melyn Lodge, Pentref Llandygái, Bangor, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.
Nerys Jones, Ysgrifennydd a Sacristan, 2 Bryn Cottages, Llandygái, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD *nessie211@btinternet.com*

**Trefniadau Rhagfyr a'r Nadolig – dyddiadau i'w nodi:**
Rhagfyr 8fed Gwasanaeth 11.00.
Rhagfyr 22ain Gwasanaeth Traddodiadol Naw Llith a Charol yng ngolau cannwyll am 5 o'r gloch gyda lluniaeth ysgafn i ddilyn.
Rhagfyr 24ain Noswyl y Nadolig, Cymun Bendigaid am 11 o'r gloch yr hwyr.

**Gwasanaethau Arferol**
*Ar y Sul*
Dim ond UN gwasanaeth Sul sydd yn St Tegai Llandygái ym mis Tachwedd, sef Tachwedd 24ain am 11.00 y bore. Gweler rota Bro Ogwen ym mhorth unrhyw eglwys ym Mro Ogwen i ddarganfod gwasanaeth yn eich cynefin agos.
*Ar Ddydd Mercher*
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Yn ystod salwch y Parch. Ddr Gareth Lloyd, gofynnwn i chi gysylltu gydag Archddiacon Bangor, yr Hybarch David Parry, sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwysi ym Mro Ogwen.
*davidparry@churchinwales.org.uk*




**Diolchgarwch 2024**
Cafwyd gwasanaeth hyfryd i ddathlu Diolchgarwch am y Cynhaeaf ar fore Sul, Hydref 13eg. Arweiniwyd yr addoliad gan ein Caplan Bro, y Parch. Sara Roberts, yn absenoldeb y Ficer. Cawsom bregeth rymus a thwymgalon ganddi cyn iddi fendithio casgliad nwyddau y gynulleidfa ac Ysgol Llandygái yn yr eglwys tuag at fanciau bwyd lleol, sef Pantri Pesda a Chadeirlan Bangor. Glanhawyd ac addurnwyd yr eglwys ar y dydd Sadwrn blaenorol gan fintai fechan o aelodau o'r gynulleidfa ac o'r gymuned. Gweler y llun sy'n rhoi cipolwg ar eu hymdrechion. Diolch i bawb a gyfrannodd eu hamser a'u hegni; gwerthfawrogwn eich ymroddiad.

Cawsom fore bendithiol iawn ar ddydd Iau, Hydref 24ain pan ddaeth plant ein hysgol eglwys, Ysgol Llandygái, i ddathlu Diolchgarwch am y Cynhaeaf. Roedd y gynulleidfa o rieni a llywodraethwyr yn werthfawrogol iawn o ymroddiad a brwdfrydedd y gwasanaeth; diolch yn fawr, blantos a staff!

# YSGOL LLANDYGÁI

**Dosbarth Enfys a Gwawr**
Yn ystod mis Hydref, mae'r dosbarthiadau Meithrin i Flwyddyn 2 wedi bod yn gwneud gweithgareddau amrywiol am y stori 'Be na Bw', ble mae'r hen wraig yn teimlo yn unig. Mae'r gŵr doeth yn eu cynghori i gael anifeiliaid, ond mae helynt mawr wedyn! Bu'r plant yn craffu ar ddarlun enwog Vincent van Gogh o'i ystafell wely - ystafell fach debyg i dŷ'r hen wraig. Buont hefyd yn actio'r stori a chreu animeiddiad gyda'u pypedau bach eu hunain. Roedd canolbwyntio a dyfalbarhau yn ddau sgil pwysig iawn wrth i'r plant bwytho anifeiliaid - mae'r plant wedi bod wrth eu boddau gyda'r tasgau pwytho. Cawsant hefyd gyfle i fesur cyfaint gwahanol debotiau yr hen wraig - yn ffodus, doedd yr anifeiliaid heb dorri'r tebotiau! 'Rydym yn awr yn edrych ymlaen at ddathlu Diolchgarwch yn Eglwys Sant Tygai gyda nifer yn cymryd rhan mewn gwasanaeth am y tro cyntaf. Hanner tymor cyntaf prysur iawn yn Nosbarthiadau'r Dysgu Sylfaen felly!





**Cyngerdd yn y Gadeirlan – Achub y Plant**
Bu disgyblion o'r ysgol yn ffodus iawn o gael y profiad o ganu mewn cyngerdd fawreddog yn y Gadeirlan ym Mangor yn ddiweddar er mwyn helpu i godi arian i elusen Achub y Plant.

Bu'r disgyblion ymysg enwogion ar y noson gan gynnwys y tenor, Gwyn Hughes Jones, a chafwyd cyfle i berfformio ar y cyd gydag ef a chôr Law yn Llaw. Mwynhaodd y disgyblion y profiad yn arw ac roeddem oll yma yn yr ysgol yn falch iawn ohonynt!

**Cyswllt â Jamaica**
Fel rhan o'r cynllun *'Building bridges of friendship'*, cawsom ymweliad gan gyfarwyddwr Addysg Ardal Clarendon, Jamaica ac aelodau o Gymdeithas Jamaica Gogledd Cymru. Daethant draw i'r ysgol i gyfarfod â'r disgyblion ac yna aethant i ymweld â Chastell Penrhyn yng nghwmni Blwyddyn 6. Cafodd pob disgybl o Flwyddyn 6 eu canmol am eu hymddygiad a'u brwdfrydedd wrth dywys y cyfarwyddwr a'r aelodau o amgylch y Castell.

**Addurno'r Eglwys**
Diolch arbennig i'r rhai a fu'n brysur yn addurno'r Eglwys er mwyn creu awyrgylch Hydrefol a chroesawgar i ni. Roedd ein prif cogydd, Anti Carol, yn un o'r rheini. Casglwyd rhoddion tuag at fanciau bwyd Cadeirlan Bangor a Banc Bwyd Partneriaeth Ogwen.

Hoffwn hefyd ddiolch am y rhoddion casgliad a dderbyniwyd. Bydd yr arian yn mynd tuag at y gronfa ar gyfer gwaith atgyweirio yn yr Eglwys.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion am fynd ati i greu eu maniffestos a chael eu hethol ar y Cyngor Ysgol! Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio a gweld eich syniadau'n cael ei wireddu. Amdani!

**Gwasanaeth Diolchgarwch yn Eglwys St.Tygai**
Cawsom fore hyfryd yn Eglwys St Tygai ymhlith ffrindiau, rhieni a theuluoedd plant yr ysgol yn ystod ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Cafwyd perfformiadau arbennig gan bob dosbarth wrth iddynt ddiolch am amrywiol bethau ac yna canu gwerth chweil! Da iawn chi, blantos.



**Stop cyn creu bloc!!!**
Cawsom wasanaeth diddorol a hwyliog yng nghwmni Catrin o Dŵr Cymru yn ddiweddar. Cafwyd hwyl yn gwisgo i fyny fel cymeriadau amrywiol yn y gwasanaeth er mwyn cyfleu'r neges bwysig o beidio â chreu 'bloc' mewn toiled!

Yna, cafodd pob dosbarth weithdy cydweithio drwy ddatblygu sgiliau codio. Diolch Catrin, rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu chi'n ôl adeg y Nadolig.

# Rhiwlas

**Annes Glynn,** Bwthyn Cefn Braich,
Rhiwlas LL57 4HB
annes.glynn@gmail.com (01248) 351015

**Clwb Ieuenctid**
Mae'r Clwb, sy'n cyfarfod yn y Neuadd ar nosweithiau Mawrth rhwng 7 a 9, wedi cael cychwyn da dan arweiniad Efa Roberts ac Elliw Tomos o Wasanaeth Ieuenctid Gwynedd. Cafwyd sesiwn dod i adnabod yr aelodau a phennwyd rhaglen am y tymor hyd at fis Mawrth nesaf. Ar ben hynny bydd cyfle i'r aelodau fwynhau gweithgareddau ar y cyd efo clybiau eraill yn y sir o bryd i'w gilydd. Ar y gweill mae trip i ganolfan sglefrio ar y rhew ym mis Rhagfyr a bydd disgo Nadoligaidd yn cael ei gynnal ym Mhorthmadog nos Iau, Rhagfyr 12. Bydd y tocynnau i hwnnw'n costio £10. Fel arall, does dim tâl i ymuno efo'r clwb yn Rhiwlas ac mae croeso cynnes i bobl ifanc rhwng 11-16 oed ymuno.

**Clwb Rhiwen**
Daeth nifer o'r aelodau ynghyd brynhawn Mercher, Hydref 16, yn y neuadd bentref. Ein gwesteion gwadd oedd Avril Wayte a Chris Conway o Ffrindiau Pier Garth Bangor. Cafwyd prynhawn diddorol iawn yn gwrando ar ychydig o hanes y pier a gwaith Ffrindiau'r Pier yn cadw a chynnal y lle hanesyddol hwn. Lesley oedd yn cynorthwyo Gareth i baratoi'r banad.

Yn ein cyfarfod nesaf ar Dachwedd 20 byddwn yn cael y cyfle i greu 'Gardd mewn Cwpan De'. Edrychwn ymlaen at y sialens hon! Ni fydd cyfarfod yn y Neuadd ar Ragfyr 18 gan fod yr aelodau'n mynd i ddathlu'r Ŵyl dros ginio Nadolig.

**Merched y Wawr**
Annes oedd yng ngofal y cyfarfod ym mis Hydref a chyflwynodd sgwrs mewn dwy ran gyda phaned - a chacen fendigedig! - wedi eu paratoi gan Catherine a Nia yn y canol. Yn y rhan gyntaf bu'n rhannu ei phrofiad o feirniadu cystadleuaeth y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod ym Mhontypridd eleni gan roi peth o flas nofel y Prif Lenor Eurgain Haf, 'Y Morfarch Arian' i'r aelodau drwy ddarllen rhan ohoni. Yn ystod ail ran y sgwrs rhannodd un o gerddi ei hoff feirdd, 'Bro' gan T.H.Parry-Williams, a chawsom drafodaeth ddifyr am nifer o'r lleoedd sy'n cael eu crybwyll yn y gerdd, yn arbennig felly y 'Pendist Mawr'sydd, meddai'r bardd 'ar lepen yr Wyddfa'. Enw diarth i ni. Ond wedi ymgynghori - dros y ffôn! - â Cynrig, penderfynwyd mai at Clogwyn Mawr y mae'n cyfeirio.

## Noson i'w chofio

Roedd hi'n argoeli'n dda rai dyddiau cyn noson gig Steve Eaves a Rhai Pobl ar Hydref 19 gan fod pob un tocyn wedi ei werthu ymhell cyn hynny! A chawsom ni ddim ein siomi. Y Neuadd dan ei sang a Steve a'r criw mor gerddgar ag erioed, y miwsig a'r geiriau yn llifo'n braf, a'r bar yn brysur. Yr eisin ar y gacen oedd gweld Lleuwen yn camu i'r llwyfan i ganu efo'i thad. (Yn anffodus roedd Jackie Williams yn sâl ac yn methu bod yno ar y noson). Digwydd bod, roedd Lleuwen a'r teulu draw o Lydaw dros hanner tymor ac, yn dilyn neges frys o Fryn Llys, dyma hi'n camu i'r bwlch a chafodd 'yr hogan leol', chwedl ei thad, groeso brwd.

Diolch o galon i aelodau pwyllgor y Neuadd fu mor eithriadol o ddiwyd yn trefnu'r cyfan dros rai wythnosau – nid ar chwarae bach y mae cynnal noson o'r fath efo'r fath sglein, ond gwych oedd gweld, a mwynhau, ffrwyth y llafur. Mwy os gwelwch yn dda (pan fyddwch chi i gyd wedi cael eich gwynt atoch!)


Steve a'r 'hogan leol'!

Yn ddi-os, chwip o noson! – y canu
yn cynnau atgofion,
ac i aelwyd y galon
daeth cerddor i danio'r dôn.


Y Neuadd dan ei sang.

**Llongyfarchiadau!**
Tra bu ei dad a'i chwaer yn ein diddanu ni ar lwyfan y Neuadd ganol Hydref, y noson ganlynol camodd Iwan Steffan ar lwyfan seremoni wobrwyo BAFTA Cymru yn ICC Cymru yng Nghasnewydd i dderbyn y wobr am y rhaglen orau yn y categori plant a phobl ifanc, Sêr Steilio. Roedd Iwan yn cyflwyno'r gyfres ar y cyd â Mirain Iwerydd.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach roedd i'w weld yn cyflwyno'r gyfres 'Cysgu efo Ysbrydion' ar S4C. Llongyfarchiadau mawr iti, Iwan.

**Cyfeillion Pentref Rhiwlas**
Cofiwch wneud nodyn o'r dyddiad canlynol: Rhagfyr 7. Dyma pryd y bydd y sesiwn Cacen a Choffi nesaf yn cael ei chynnal yn y Neuadd rhwng 1 a 3 o'r gloch y pnawn. Bydd pawb sydd wedi cael blas ar y cynnyrch yn gwybod yn iawn mai gorau po gyntaf ichi gyrraedd cyn i'r cacennau ddiflannu! Croeso mawr i bawb.

**Diolch**
Dymuna Einir Williams, Cefn Coch, Waun Pentir, ddiolch am y llu cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd er cof am ei hannwyl fam, Elizabeth Ann Jones, Tan Buarth Uchaf, Dinorwig fu farw ar Orffennaf 8 yn 87 oed. Mae Einir a'r teulu'n gwerthfawrogi'n arw iawn. Diolch o galon ichi i gyd.

## Capel Shiloh Newydd, Rhiwlas - Gwasanaethau'r Sul

Dyma fanylion y gwasanaethau sydd i'w cynnal yn y Neuadd am 10 o'r gloch ar y Suliau canlynol:

Tachwedd 17 – Dr Ian Morris
Tachwedd 24 – Peter Cutts
Rhagfyr 1 – Dafydd Coetmor Williams
Rhagfyr 8 – Dr Ian Morris
Rhagfyr 15 – Parch. Aled Davies

Croeso cynnes i bawb.

# Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

## Capel Shiloh Newydd Tregarth

Oedfaon am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol.
Tachwedd 24: R.O. Jones, Gaerwen
Rhagfyr 1: Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid
Rhagfyr 8: Dr Ian Morris
Rhagfyr 15: Gwasanaeth y Nadolig
Rhagfyr 22: Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni
Rhagfyr 29: I'w drefnu

Nos Sul, Tachwedd 24, am 7.30 bydd Cymanfa Garolau yn Shiloh Newydd gyda Cefin Roberts yn arwain, Meinir Wyn Roberts yn unawdydd ac eitemau gan Gôr Glanaethwy. Cofiwch am y noson arbennig hon i ddathlu'r Nadolig. Bydd yr elw tuag at Gronfa Atgyweirio Eglwys Sant Cedol, Pentir. Dewch yn llu.

Drws Agored yn Shiloh bob bore Gwener rhwng 10 a 12 o'r gloch. Croeso twymgalon i pawb ymuno am sgwrs, paned a chynhesrwydd.

**Gwaeledd**
Da ydi deall fod Elinor Holland, Perthi adre wedi cyfnod mewn ysbyty. Pob dymuniad da iddi gan bawb o ddarllenwyr y *Llais*.
Deallwn fod Olga Davies, Hen Berllan, Dob, yn ôl yn Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein cyfarchion iddi am wellhad buan.

**Profedigaeth**
Ar Fedi 28, yng nghartref Meddyg Care, Cricieth, yn 85 oed bu farw Eirwen Owen, gynt o Waen y Pandy, Tregarth. Roedd yn briod gyda'r diweddar Alun, yn fam i Ruth, Michael a'r diweddar Stephen, yn Nain i Iwan, Emma ac Alice, yn hen nain i Logan, Anest a Cai ac yn chwaer i'r diweddar Rita ac Elwyn. Bu ei hangladd yn yr Amlosgfa ar Hydref 8 a chydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn fel ardal gyda theulu Glyn Richards – Glyn Saer i ni fel trigolion Dyffryn Ogwen a chymaint o ffrindia iddo o Gymru gyfan. Bu'n byw am gyfnod yn Nhŷ Capel Chwarel Goch a bellach roedd yn cartrefu yn 5 Tai Caradog, Deiniolen. Bu Glyn farw ar Hydref 15 ac yntau'n 96 mlwydd oed, a bu ei angladd yn Eglwys Crist, Llandinorwig, Deiniolen ar Hydref 24. Anfonwn ein cofion at ei briod, Iona, a'i blant – Keith a'i briod Shirley, a Brenda a'i phriod Stuart. Roedd Glyn yn daid direidus ac yn ffrind annwyl i bawb. Cofiwn amdano fel crefftwr o'r radd flaenaf a fu'n gweithio am flynyddoedd fel saer Cwmni Theatr Cymru. Melys yw'r cof amdano.

Ar Hydref 25, mewn Cartref Gofal yng Nghaerdydd bu farw Rhiannon Alun Evans, gwraig y diweddar R. Alun Evans, a fu'n bennaeth y BBC ym Mryn Meirion, Bangor, a hithau'n 92 oed. Bu Alun a Rhiannon yn byw yn Nant yr Eira, Tal y Cae, a bu Rhiannon yn hyfforddi Parti Adrodd Merched y Wawr, Tregarth am rai blynyddoedd gan brofi llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant. Cydymdeimlwn gyda'i phlant, Rhys a Betsan Powys a'r holl deulu.

Ar Hydref 12, yn ei chartref, 1 Bro Syr Ifor, Tregarth, bu farw Linda Elizabeth Hughes. Roedd yn briod â'r diweddar Now Felin, ac yn fam i Sharon, Andrew, John a Mark. Bu'r angladd yn Amlosgfa, Bangor, ar Hydref 25 a chydymdeimlwn gyda'i holl deulu a ffrindiau.

**Artist o Sling, Tregarth**
Mae Pete Jones yn artist o fri ac yn byw yn ein mysg yma yn Sling, Tregarth. Brodor o Hirael ydi Pete a chyn ymddeol bu'n gweithio ym Mryn y Neuadd yn Llanfairfechan yn gofalu am y preswylwyr yno. Daeth i amlygrwydd fel artist ac mae wedi arddangos ei waith mewn amryw byd o ganolfannau ar draws y wlad. Mae un o'i weithiau wedi'i brynu gan y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ar Hydref 13 agorwyd arddangosfa o'i waith ym Mhlas Glyn y Weddw, Llanbedrog ac mae ar agor tan Rhagfyr 24. Teitl arddangosfa Pete ydi 'Tu Hwnt i'r Mynyddoedd', sef gwaith ar y cyd gyda'r artist Louise Morgan RCA sydd wedi cynhyrchu gwaith dan yr enw 'Gorwelion Diddiwedd'. Dyma waith ar y cyd gan y ddau artist o gelf tirluniol a ffigurol a ysbrydolwyd gan feirdd Cymreig ac etifeddiaeth ddiwydiannol a diwylliannol. Ewch draw am bnawn i Blas Glyn y Weddw. Chewch chi ddim o'ch siomi.

**Merched y Wawr, Cangen Tregarth**
Nos Lun, Hydref 7 yn Festri Capel Shiloh Newydd cyfarfu'r gangen a chroesawyd Menna Gilbert o Benrhosgarnedd i sgwrsio ar y testun 'Gwisgoedd drwy'r degawd'. Cawsom noson ardderchog gyda Menna yn modelu'r gwisgoedd gan gychwyn yn y dauddegau hyd heddiw. Prynwyd llawer o'r dillad mewn siopau mawr, adnabyddus yn Llundain ac roeddynt yn werth i gweld. Roedd wedi paratoi'n fanwl at y noson gan gyflwyno sgript a ddarllenwyd gany llywydd, Carol Jones, cyn i'r fodel ymddangos ym mhob gwisg yn ei thro. Mwynhaodd pawb y wledd o noson, a diolchwyd i Menna am baratoi mor drylwyr ar ein cyfer.


Ar Dachwedd 4 fe gawn noson o gelf dan arweiniad Elen Williams, a byddwn yn creu Cardiau Nadolig. Dewch i ymuno yn yr hwyl am 7.30 yn Festri Capel Shiloh Newydd. Bydd Dathlu'r Nadolig ar Ragfyr 2 yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Edrychwn ymlaen yn fawr at y wledd Nadoligaidd.

Ni fyddwn yn cyfarfod fel cangen ym mis Ionawr, ond ar Chwefror 3 daw'r awdures Mared Lewis i sgwrsio am ei gwaith. Cofiwch ymuno!

**Llongyfarch**
Llongyfarchiadau mawr i Manon Dwynwen Owen, merch Helen a Gwilym Owen, 9 Tal y Cae, Tregarth, ar ei llwyddiant yn llwyddo yn ei arholiadau Doethuriaeth mewn Athroniaeth Feddygol ym Mhrifysgol Leeds. Falch iawn o glywed am dy lwyddiant, Manon.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad tuag at deulu Linda Elizabeth Hughes a fu farw yn dawel yn ei chartref, 1 Bro Syr Ifor, ar Hydref 12fed. Roedd yn wraig annwyl i'r diweddar Now Felin a mam arbennig Sharon, Andrew, John a Mark ac yn nain a hen nain hoff i'w holl wyrion a wyresau. Anfonwn ein cofion atoch fel teulu.

**Llwyddiant prawf gyrru**
Llongyfarchiadau i Gwenno Roberts, Fferm Dob ar lwyddo i basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn, Gwenno.


CHRIS GRIFFITHS CYF

Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu
18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369
neu 07813 455653

DAFYDD CADWALADR
CYNHYRCHION COEDLANNOL
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

L. STURRS A'I FEIBION
SEFYDLWYD YN 1965
ADEILADWYR
HEN IARD STESION, FFORDD Y STESION, BETHESDA
FFÔN: 600953
isturrs@googlemail.com

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Aeth tair blynedd heibio ers i'r golofn hon ymddangos yn y *Llais* ac mae'n bleser cael ei chyflwyno yn fisol. Diolch i bawb sydd yn cyfrannu yn selog a phawb sy'n cofio am eiriau yn sydyn tra'n sgwrsio efo fi. Mae'n braf hefyd cael cyflwyno ambell i sgwrs, ac mae'r hyn a gofir gan griw yn aml yn cychwyn sgyrsiau diddorol iawn.

**Ambell Air ac Ymadrodd**

**Be' 'nawn ni efo'n trwyna'?**

Mae gynnon ni lawer o ddywediadau sy'n ymwneud â'r trwyn. 'Hen drwyn' meddan ni am rywun ffroen-uchel, yn meddwl ei fod o neu hi yn well na rywun arall – "Hen drwyn ydy hi"; "Mae hi rêl trwyn". Mae ystyr arall i 'rêl trwyn', sef rhywun busneslyd – "Mae o rêl trwyn. Mae'i drwyn o ym musnas pawb."

Gwneud ymdrech i wneud rhywbeth – i ddal ati – ydy 'rhoi trwyn ar y maen' – "Mae hi'n hen bryd i'r hogyn 'ma roi trwyn ar y maen efo'i waith ysgol." Ystyr 'troi ei thrwyn' ydy gwrthod neu anwybyddu rhywbeth – "Pam oedd hi'n troi'i thrwyn ar y cyfla i fynd i weithio i ffwrdd?" a "Mae o'n un drwg am droi'i drwyn ar fwyd diarth."

Mae 'troi trwyn' hefyd yn medru golygu trechu rhywun, 'cael y gorau' ar rywun – "Mi wnes i droi'i drwyn o, ac mi ges i lonydd gynno fo wedyn."



Pan fydd rhywun yn methu gweld rhywbeth, mi ddwedwn ni "Sbia! Mae o o flaen dy drwyn di!" a "Mae o dan dy drwyn di!"

Ymadrodd arall yn ymwneud â'r trwyn ydy 'dangos trwyn', hynny dy mynd i rywle rhag ofn pechu neu siomi rhywun – "Well iti ddangos dy drwyn yn nhŷ Siân neu mi fyddi di wedi pechu. Dwyt ti ddim wedi bod ers tro."

A dyma i chi un arall, 'dilyn trwyn', hynny ydy mynd heb drefnu o flaen llaw – "Doeddan ni ddim wedi trefnu lle roeddan ni'n mynd i aros ar ein gwylia'. Dilyn ein trwyna' oeddan ni."

**diarth**. Dyma ddwedwn ni am 'dieithr' – "Pwy ydy o? Mae o'n ddiarth i mi." pobol ddiarth. Nid pobl ddieithr yn yr ystyr eu bod yn anghyfarwydd neu'n estron, ond pobl yn ymweld â'ch cartref chi – "Oes 'na bobol ddiarth acw? Os oes 'na, mi alwa' i rywbryd eto."

**picio**. Mynd yn sydyn – "Dwi 'm ond yn picio i'r siop i nôl menyn. Fydda' i'n ôl cyn iti droi."

**hen snîc**. Rhywun 'dan-din', yn gwneud rhywbeth yn wrthgefn, yn slei neu'n gachgïaidd.

**gynnau**. Ychydig amser yn ôl ydy hwn – "Mi welais i o gynna'. Roedd o'n cerdded heibio'r tŷ 'ma." Yn ddiweddar iawn ydy 'gynnau fach'.

**wsnos**. Dyma ddwedwn ni am 'wythnos' – "Fuon ni i ffwr' am wsnos o wylia'."

**ta**. Daw hwn o 'ynteu', ac mae o'n cael ei ddefnyddio mewn cwestiwn wrth gyfeirio at ddewis – "Be' 't isio, te ta coffi?"

**'chan / 'ychan**. Gair a ddefnyddiwn ar ddiwedd brawddeg mewn sgwrs yn cyfeirio at y person arall. Daw o'r gair 'fachgen' o 'bachgen' – "Dwi heb dy weld ers tro 'chan!" "Wel naddo 'chan!"

**herian**. Dweud pethau diflas wrth rywun er mwyn eu cynhyrfu neu eu diflasu – "Roedd hi'n cael ei herian yn yr ysgol gan ryw genod annifyr." Mae 'pryfocio' a 'thynnu ar' yn debyg.

**rhoid**. Dyma ddwedwn ni am 'rhoi'– "Dw i di rhoid y pres iddi hi."

**pen set**. Pethau'n mynd yn rhy ddiweddar. "Mi aeth hi'n ben set arnan ni, ac aeth hi'n ras wyllt arnan ni i ddal y trên."

**lwlan**. 'Elwlen' ydy hwn – enw arall ar 'aren'.

**adar nos**. Rhai sy'n hwyr iawn yn mynd i'w gwlâu; rhai sy'n aros 'ar eu traed yn hwyr'.

**di-ffrwt**. Dyna ddywedwn pan deimlwn yn wan ac heb fawr o egni. Nid wyf yn ymwybodol bod y gair ffrwt yn cael ei ddefnyddio i'r gwrthwyneb.

**syth bin**. Mae'r ail air yn pwysleisio'r gair cyntaf. Dydi hi ddim digon i ddweud "Tyrd adra yn syth!" rhaid dweud "Tyrd adra yn syth bin!" nynny ydi paid ag oedi, paid ymdroi, rhaid dod ar unwaith.

**tafod frwnt**. Cyfeiriad at rai pobl sy'n gallu dweud pethau cas am bobl eraill. Dywedir bod tafod frwnt ganddynt.

**dim hid arno/arni**. "Paid a gofyn i Wil fynd ar negas i ti, does na ddim hid arno" Hynny ydy ni ellir dibynnu arno. Hefyd "Does dim dal arno."

Diolch eto i'r rhai fu'n llythyru a sgwrsio hefo fi. Mae'n hawdd cael gafael arnaf. 42 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN 07443047642
**maryeds@hotmail.co.uk**


J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig, Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531 | 01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

ARBENIGWR MEWN LLORIAU COED CALED
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117
Symudol: 07835487909

SIOP OGWEN
yn cynnig gwasanaeth
CLIC A CHASGLU
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop
Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur.
Cysylltwch â'r siop ar y ffôn
07394 905881
neu E-bost siop@ogwen.org
i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu
CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL

Londis
BETHESDA
01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr 7 diwrnod yr wythnos

Dilynwch Llais Ogwan ar X
@Llais_Ogwan

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Merch fach newydd**
Mae'n bleser bob amser croesawu babi newydd i'r byd. Y tro hwn, anfonwn longyfarchiadau a chofion cynnes o Dalybont i Bensarn, Abergele, i dŷ Wil a Laura Hughes a'u mab bach, Morgan. Mae Morgan newydd ddod yn frawd mawr i Lily Ann, a gafodd ei geni yng nghanol mis Hydref. Mae genedigaeth Lily yn gwneud Bethan a Mark Kendrick, 4 Lôn Ddŵr, yn nain a thaid am y trydydd tro, ac mae gen i deimlad bod Rita (Post) yn dechrau arfer â bod yn hen-nain falch erbyn hyn. Pob bendith arnoch i gyd fel teulu.

**Gwellhad buan**
Cafodd Mrs Jean Hughes, Bryn Awel, ei chipio i Ysbyty Gwynedd ar Hydref 17eg. Mae Jean wedi bod yn iach ar hyd ei hoes, a gobeithio na fydd yn hir nes daw yn ôl atom. Brysiwch wella, Jean. Mae'ch ffrindiau ar hyd a lled y Dyffryn yn cofio atoch.

Mae Lis Williams, 2 Min Ogwen, mewn ysbyty yn Lerpwl ers rhai wythnosau bellach. Iddi hi, ac i bawb arall sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd, anfonwn ddymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan.

Braf yw gweld Keith, 13 Dolhelyg, adref o Ysbyty Glan Clwyd. Cafodd driniaeth annifyr iawn yn ddiweddar ond erbyn hyn mae o'n medru codi ar ei draed ac yn cryfhau bob dydd o dan ofal Sandra a'r teulu.

**Profedigaethau**
Estynnwn gydymdeimlad diffuant at Mrs Rhiannon Williams, 15 Cae Gwigin, a gollodd ei brawd ar ddechrau mis Hydref. Er i Merfyn a'i ddiweddar briod, Pat, fyw am flynyddoedd lawer yn Llanfairfechan, yng Nghae Gwigin y cafodd ei fagu. Meddyliwn am y teulu oll yn eu galar.

Yn dawel yn ei chartref yn Burgess Hill, Sussex, yn dilyn cyfnod hir o waeledd a ddioddefodd yn ddewr, bu farw Glenys Allen (Glen Hughes, 30 Cae Gwigin gynt).

Yr oedd Glen yn chwaer ffyddlon i Margaret Fearnley, 'Helyg', Tyddyn Cottages, a'r diweddar Wyn Hughes, un o sylfaenwyr Clwb Rygbi Bethesda. Yr oedd hi'n gymeriad hoffus, yn barod ei gwên ac yn ffraeth iawn. Doedd neb yn medru bod yn drist am hir yng nghwmni Glen ac er iddi dreulio y rhan helaethaf o'i hoes yn Lloegr, daliodd i siarad Cymraeg tan y diwedd un.

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf at Margaret yn ei hiraeth; at y teulu pell ac agos a hefyd at ffrindiau oes Glen sydd â meddwl mawr ohoni. Bu sawl colled o blith yr hen gyfeillach yn ddiweddar, a mae'n brifo bob tro.

Bu farw tad Carl, 5 Lôn Ddŵr, yn ystod y gwanwyn, a ninnau heb glywed am ei brofedigaeth tan rŵan. Mae'n wir ddrwg gennym, Carl. Estynnwn gydymdeimlad dwys atat ti a Helen, a gweddill y teulu, yn eich colled drist.

**Cymdogion newydd**
Croeso mawr i Sian a'r genod sydd wedi symud i 4 Cae Gwigin o Fethesda. Rydw i'n siwr y byddwch yn teimlo'n gartrefol yn ein plith. Mae gan nifer dda o bobl y pentref gysylltiadau cadarn â Bethesda.

**Campwaith yn wir!**
Bydd gwaith yr arlunydd amryddawn, Elen Williams, yn harddu cornel o Dalybont am flynyddoedd lawer i ddod. Llongyfarchiadau mawr iti, Elen, a diolch yn fawr iawn oddi wrth y trigolion i gyd. Mae dy furlun lliwgar yn codi'n calonnau bob tro y cerddwn heibio Bont Bach.

## Capel Bethlehem

*Oedfaon (am 2 o'r gloch)*
Tachwedd 17: Parchg. Eric Jones.
Tachwedd 24: Parchg. Olaf Davies.
Rhagfyr 01: Oedfa i'w threfnu.
Rhagfyr 08: Parchg. Nerys Griffiths.
Rhagfyr 15: Oedfa'r Nadolig.
Rhagfyr 22: Parchg. Iwan Ll. Jones.

Croeso cynnes i bawb.

**Y Diolchgarwch**
Oherwydd absenoldeb ein pregethwr gwadd, y Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus, cynhaliwyd ein Hoedfa Ddiolchgarwch ar Sul, 20 Hydref, gan yr aelodau. Dymunwn adferiad llwyr i Mr. Evans. Diolchwn i bawb a ymatebodd mor hael i'n hapêl am gyfraniadau i'r Banc Bwyd yn Nyffryn Ogwen. Derbyniwyd llythyr o ddioch a gwerthfawrogiad am yr holl nwyddau o'r swyddfa ym Methesda.

**Llongyfarchiadau**
Dymunwn iechyd da a llawer o ddedwyddwch i Nev ac Angharad, conglfeini Capel Bethlehem, a ddathlodd eu Priodas Ddiemwnt (60 mlynedd) ar Hydref 17. ( B.J.)



**Diolch**
Dymuna Nev ac Angharad ddiolch i bawb ym Mwrlwm Bethlehem am ddathlu penblwydd diemwnt eu priodas gyda chlamp o gacen. Diolch hefyd i deulu a ffrindiau ym mhobman am eu cyfarchion, cardiau, anrhegion a'u dymuniadau da!

**Gwibdaith i'r Wyddgrug**
'Fum i erioed ym Marchnad yr Wyddgrug; hynny yw tan ddydd Sadwrn, Hydref 12ed, pan aeth Bwrlwm Bethlehem ar wibdaith yno efo Bws Ogwan.

Mae'n lle hynod o ddifyr, a digon o fargeinion ar gael. Roedd y tywydd o'n plaid, hefyd, y diwrnod hwnnw. Ar y ffordd yn ôl, cawsom alw yn Tweedmill, i chwilio am fwy o fargeinion, a mwynhau panad cyn mynd adra'.

Diolch i Nev ac Angharad am wneud y trefniadau ac i Ifan, ein gyrrwr gofalus, am ddod â ni adref yn ddiogel. (B.J.)

**P'nawn Difyr**
Ar b'nawn dydd Mawrth, Hydref 15ed, ymunodd rhai o aelodau Bwrlwm Bethlehem â chlybiau eraill o'r Dyffryn mewn te bach yn Neuadd Ogwen. Yr oedd llawr y Neuadd o dan ei sang, a phawb am y gorau'n dal i fyny ar y newyddion diweddaraf efo hen ffrindiau. Wedi inni fwyta llond plât o ddanteithion, a chael panad, cawsom fwynhau awr o adloniant yng nghwmni Wil Tân. Pleser pur oedd gwrando ar yr hen ffefrynnau fel 'Aelwyd fy Mam', 'Y Border Bach' a 'Mynydd Bodafon', ond penllanw'r rhaglen, yn sicr, oedd ei ddatganiad bywiog o'r 'Hen Geffyl Du'. Mae Wil yn iodliwr o fri. Tybed fydd rhywun o blith y bobl ifainc clên, oedd yn gweini wrth y byrddau, ag awydd dysgu'r grefft ryw ddydd?

Hoffem ddiolch i bawb a fu wrthi'n ddygn yn trefnu p'nawn arbennig o ddifyr i henoed y Dyffryn. Gwerthfawrogwn eich caredigrwydd yn fawr iawn.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**
Cysylltwch â **Neville Hughes** (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

# Cyngor Cymuned Bethesda

Cynhaliwyd cyfarfod cyffredinol o'r Cyngor nos Iau, 24ain o Hydref yng Nghanolfan Cefnfaes ac yn rhithiol dros Zoom.

**Dŵr yn codi o'r ffordd – Lôn Newydd**
Adroddwyd ar ddechrau mis Medi fod dŵr yn llifo ar hyd ffordd Lôn Newydd ger cyfnewidfa BT. Mae Clerc y Cyngor a'r Cynghorydd Paul Rowlinson wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am y mater. Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd eu bod wedi derbyn yr un wybodaeth gan Dŵr Cymru. Adroddwyd mai dŵr yn codi o dwythellau (ducts) BT ydi'r achos, a'u bod wedi hysbysu BT am y broblem, ond byddent hefyd yn dilyn y mater i fyny gyda hwy. Nodwyd fod hyn yn broblem all godi o bryd i'w gilydd wrth i ddŵr tir ffeindio ei ffordd i mewn i dwythellau BT, ond oherwydd rhwystr yn y dwythell mae'r dŵr yn cael ei yrru i fyny drwy arwyneb y ffordd. Mae fel arfer yn gallu cael ei ddatrys drwy rodio'r dwythell i glirio'r rhwystr. Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd eto, gan bwysleisio y bydd tywydd rhewllyd yn cael effaith beryglus ar y ffordd, a bydd angen mynd i'r afael â'r broblem cyn gynted â phosib. Y Clerc hefyd i ofyn i Gyngor Gwynedd sicrhau mai dŵr glaw ydyw ac nid carthffosiaeth.

**Cyflwr Ffordd Hen Barc**
Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda Siân Gwenllian AS ar y mater, ac adroddwyd fod yr aelod seneddol wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am y mater, ac wedi derbyn yr un ymateb a gafodd y Cyngor mis diwethaf. Adroddwyd y bydd Siân yn hapus i godi'r mater o ragor o gyllid i wella ffyrdd gyda Ken Skates, ac fe ddaw yn ôl at y Cyngor unwaith iddi hi dderbyn ymateb.

**Ian Roberts, Arolygydd Gogledd Gwynedd, Heddlu Gogledd Cymru**
Croesawyd Ian Roberts, David Griffiths a Scott Jones o'r heddlu i'r cyfarfod. Cafwyd cyflwyniad gyda llawer o wybodaeth am droseddau o fewn y gymdogaeth, a chymhariaeth gydag ardaloedd eraill yng Ngogledd Gwynedd. Cytunwyd y byddent yn mynychu cyfarfod eto ym mis Mawrth 2025 i weld sut mae'r ystadegau trosedd yn dod ymlaen. Diolchwyd i'r tri am fynychu'r cyfarfod.


**Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen** Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru • 07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

**SIÂN GWENLLIAN**
**AELOD O'R SENEDD DROS ARFON**

**CYSYLLTWCH:**
sian.gwenllian@senedd.cymru
01286 672 076
70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus



**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**


Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com


# Gwefan Hanes Dyffryn Ogwen

**Cofiwch droi at wefan Hanes Dyffryn Ogwen sydd o dan ofal John Ll. Williams a Lowri W. Williams. Mae arni stôr enfawr o wybodaeth ar sawl agwedd ar hanes ein hardal.**

Ymhlith yr erthyglau diweddaraf, mae darn hynod ddiddorol a darllenadwy gan John Ll. Williams, ar y cyd ag Idris Lewis, ar y 'Jerri Em'. Dyma'r enw ar y ddyfais yn Chwarel y Penrhyn a oedd uwchlaw'r twll, yn cynnwys cerbyd efo craen yn symud ar hyd wifrau dur trwchus.

Pynciau eraill y drafodir mewn erthyglau diweddar ar y wefan ydi 'Cerrig Canan', 'Adeiladau Diwydiannol', 'Chwarel y Foel' a 'Chwarel Pantdreiniog'.



# Partneriaeth Ogwen

**Cofnodi Coed**
Ydych chi eisiau dysgu mwy am goed derw Dyffryn Ogwen? Hoffech chi ddysgu sut i fesur coed a chyfrannu at greu cofnod o beth sydd yn yr ardal?

Mae Wild Resources a Partneriaeth Ogwen yn gweithio ar broseict newydd i fapio coed derw Dyffryn Ogwen ac eisiau hyfforddi pobl i helpu gyda'r gwaith. Mae croeso i unrhyw un gymryd rhan. Mi fydd lefel cymedrol o gerdded yn y coed. Byddwn yn cyfarfod ym mynedfa Coed Meurig ddydd Sadwrn, 23ain o Dachwedd. Bydd un sesiwn 10:00 - 12:00 a sesiwn arall 13:00 - 15:00. Bydd hyn yn digwydd ar Wythnos Genedlaethol y Goeden. Am mwy o wybodaeth ac i gadw lle e-bostiwch chris@ogwen.org

**Prynhawn Difyr drwy Cyfaill Cymunedol, Partneriaeth Ogwen**
Cynhaliwyd prynhawn difyr iawn yn Neuadd Ogwen yng nghwmni Wil Tân ar Hydref 15fed, gyda dros 70 yn mwynhau'r achlysur. Diolch arbennig i Wil am ddiddanu'r gynulleidfa, Ceri Ogwen a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am ein cynorthwyo, a diolch i DEG am y grant i gynnal y digwyddiad.






**Cludiant Cymunedol, Dyffryn Caredig**
Fel un aelodau Gwynedd o'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA) bu criw'r Dyffryn Caredig wrthi'n brysur ganol Hydref - nid yn unig yn cludo trigolion y Dyffryn, ond hefyd yn dathlu hynny a'r cydweithio gyda'r corff sydd wedi bod mor gefnogol a phartneriaid Dolan, y Dref Werdd, Drws i Ddrws ac Yr Orsaf.

Meddai Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Caredig, "Gan fod gennym bellach bump o gerbydau trydan acw a fflyd o feics trydan mae pob wythnos yn brysurach na'r un flaenorol! Mae tipyn o amrywiaeth yn y gwaith a wneir chwe diwrnod bob wythnos - cludiant i feddygfeydd, digwyddiadau cymdeithasol, siopa, cagliadau a danfoniadau bwyd yn ogystal â chludo disgyblion yr ysgolion lleol. Yn ystod yr wythnos hon o ddathlu fe gludwyd ymhell dros 100 o bobl leol. Roedd y rheini'n amrywio mewn oedran o 9 i 90+ ac fe aethpwyd i amrywiaeth eang o gyrchfannau gan gynnwys Bangor, Caergybi, Prestatyn a Chaernarfon. Hyn i gyd, a danfon prydau maethlon, cynnes Caffi Coed y Brenin ar y dydd Iau ac wedyn uchafbwynt yr wythnos i sawl un, cyngerdd mawreddog Wil Tân yn Neuadd Ogwen!"

Ychwanegodd Donna Watts, Prif Swyddog Partneriaeth Ogwen, "Mae'r gefnogaeth rydan ni wedi ei chael gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol dros y bum mlynedd ddiwethaf wedi bod yn greiddiol i lwyddiant y prosiect yma. Mae'n ein galluogi i gludo nifer fawr o unigolion sydd heb fynediad at drafnidiaeth ar hyd a lled y dyffryn tra hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at waith Cludiant Cymunedol Gwynedd. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Loteri Genedlaethol am gefnogi'n gwaith a hefyd i gronfa SPF sydd wedi bod yn hollbwysig inni wrth weithio ochr yn ochr gyda phartneriaid Dolan i ymestyn y rhwydwaith cludiant trydan cymunedol ar hyd a lled Gwynedd".









# Y Gerlan

**Caren Brown**. 07789916166
carenelaine@hotmail.com

**Pen-blwydd Hapus**
Pen-blwydd hapus arbennig iawn i Enoc Williams, Bryn Caseg, yn 18 oed. Gobeithio dy fod wedi cael hwyl yn dathlu efo ffrindiau a theulu.

**Pasio prawf gyrru**
Llongyfarchiadau mawr i Theo Florence, Stryd Hir, am basio ei brawf gyrru. Cymer ofal yn y car newydd!

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Sion Glyn ac Elinor, Gwernydd, ar enedigaeth babi newydd – merch fach arall yn y teulu. Mae Nanw a Mali wedi gwirioni gyda'u chwaer fach ac edrychwn ymlaen i gyhoeddi ei henw'n fuan.


**Vernon Jones**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Vernon yn 75 mlwydd oed yng nghartref nyrsio Cerrig yr Afon, Felinheli ar 5ed o Hydref, 2024. Roedd Vernon yn un o chwech o blant ac fe gafodd ei fagu a'i ddwyn i fyny yn Stryd y Ffynnon, Gerlan ac yna yng Nghiltrefnus. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol Gynradd Gerlan, Ysgol Dyffryn Ogwen a Choleg y Normal, Bangor. Bachgen ei filltir sgwâr oedd Vernon ar wahân i gyfnodau yn y Falklands yn gweithio ar adnewyddu'r Maes Awyr a hefyd ar safle oedd adeiladu ar Ynys Manaw. Penderfynodd Vernon nad bod yn athro oedd ei yrfa ond yn hytrach bod yn saer coed. Roedd o'n saer arbennig o dda ac yn llwyddiannus iawn. Mae'n debyg bod llawer o drigolion y Dyffryn wedi manteisio ar ei ddawn arbennig o drin coed. Hogyn fraeth a direidus oedd Vernon ac wrth ei fodd yn tynnu coes. Roedd yn ymfalchio yn ei Gymreictod a'r iaith Gymraeg a bu yn brwydro yn galed dros yr iaith yn ystod ei ieuenctid. Ymfalchiwn am ei gyfraniad i'w gymdeithas. Bu gwasanaeth yr angladd yn Amlosgfa Bangor ar Hydref 23. Gyrrwn ein cydymdeimlad dwysaf at Bethan ei ferch ac Iwan ei fab, ac at ei deulu i gyd.

**Llwyddo'n Lleol**
Mae Llwyddo'n Lleol yn cynnig cyfleoedd i bobl ifanc i ddechrau busnes o'r newydd neu ddatblygu eu busnes, drwy gynnal 10 wythnos o sesiynau mentora gydag arbenigwyr busnes a chymorth ariannol o £1000 i ddatblygu eu busnes. Un sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ei chais am gefnogaeth i ddatblygu ei syniad busnes ydi Glesni Owen, Gwaun Gwiail.

Erbyn hyn, mae Glesni wedi cyflawni 3 wythnos o'r sesiynau mentora ac wedi dysgu lot fawr yn barod am sut i ddefnyddio'r cyfryngau i ddatblygu ei busnes. Mae'r arian wedi ei galluogi i brynu offer ar gyfer ei busnes, sef busnes creu celf ar gyfer comisiwn a phrintiau. Edrychwn ymlaen at weld dy fusnes yn mynd o nerth i nerth, Glesni, a gobeithiwn yn fawr y byddi'n llwyddo'n lleol.



Os oes gennych ddiddordeb mewn comisiynu darn o gelf neu brynu print gan Glesni, gallwch gysylltu gyda hi dros Facebook ac Instagram.



**Ysgol y Gerlan ddechrau'r 1930au**
O'r rhes gefn i lawr: Miss Thomas, Tom, Eric, ? , Edgar, Leslie, Gordon, Emrys. Greta, Betty, Eirlys, Nesta, May, Myfanwy, Maggie, Betty Post.
Eric, Llew, Beryl, Myra Wyn, Betty, Goronwy, Hilda, Betty Cwlyn, Eluned, Ffrancon, Caherine. Will, Ivor, Gwilym, Will Davies, Ivor (Blewyn), Gruffydd Wyn (Tangadlas).

**Hel Hanes Gerlan**
Cafwyd pnawn a bore difyr iawn yn y Caban ddiwedd mis Hydref a chyfle i hel hanes y pentref, yr hen ysgol a'r neuadd bentref. 'Roedd 'na gasgliad o luniau yn cael eu harddangos, a diolch i bawb wnaeth rannu eu hen luniau difyr ac i bawb ddaeth draw i roi enwau a'r hanes y tu ôl i rai o'r lluniau yma. Braf oedd gweld wynebau hen a newydd yn y neuadd a phawb yn sgwrsio'n hwyliog wrth hel atgofion. 'Roedd yn ddigwyddiad emosiynol hefyd gydag un person yn dychwelyd i'r adeilad am y tro cyntaf ers 1964!

Gyda help Robyn Meredydd o Bartneriaeth Ogwen, 'rydym wedi gallu sganio nifer fawr o'r lluniau gyda'r bwriad o uwch-lwytho casgliad ohonynt i wefan Casgliad y Werin fel bod cofnod diogel o'r ardal yno. Diolch mawr i Robyn am ei chefnogaeth ac i bawb fu'n rhan o greu'r digwyddiad llwyddiannus yma. Gobeithiwn gynnal arddangosfa efo rhai o'r lluniau a'r straeon yn y Caban yn 2025.

**Be' Nesa' yn y Caban?**
'Rydym yn gobeithio trefnu dathliad Nadolig yn y Caban brynhawn dydd Sul y 15fed o Ragfyr. Felly rhowch y dyddiad yn eich dyddiadur ac edrychwch allan am fwy o fanylion ar y cyfryngau cymdeithasol.

C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Timber & Builders' Merchants
Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel - Llandudno
C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045
bethesda@cljonesltd.co.uk

## Gair neu ddau John Pritchard

# Y BYD YN FUD

I gymdeithas wâr, mae pob bywyd yn werthfawr, a bywyd pawb yr un mor werthfawr â'i gilydd. Ond trasiedi a chywilydd pethau ydi nad gwâr ein cymdeithas na'n byd. Rhan o'r cywilydd ydi bod y byd mor aml yn fud a byddar. Byddar i gri'r tlawd a'r newynog a'r gorthrymedig, a mud ynghylch y drygioni a'r anghyfiawnder a'r dioddefaint. Heddiw, mae'n anodd meddwl am unpeth sy'n amlygu'r byddardod a'r mudandod yn fwy na'r rhyfela a'r lladd yn Gaza a'r Dwyrain Canol.

Ers blynyddoedd, bu rhai unigolion a mudiadau dyngarol (yn cynnwys Cymorth Cristnogol) yn tynnu sylw at y gormes a wynebai'r ddwy filiwn o Balestiniaid ar Lain Gaza dan law gwladwriaeth Israel. Buont yn galw am gymorth a chyfiawnder i'r bobl hyn. Buont yn rhybuddio y gallai'r gormes a'r amodau enbydus esgor ar argyfwng dyngarol ac anghydfod a rhyfel. Ond bu'r byd yn fyddar i'w ple. Yn waeth na byddar hyd yn oed wrth ddewis peidio â gwrando. Ac o ganlyniad, yn fud.

Yn amlwg, nid y gyflafan erchyll a laddodd 1,139 o bobl yn Israel ar Hydref 7fed y llynedd oedd dechrau'r lladd y clywsom amdano bob dydd ers hynny. Mae'r anghydfod a'r tyndra'n bodoli byth ers sefydlu gwladwriaeth Israel ym 1948. Erbyn 1950, roedd 700,000 o Balestiniaid wedi eu halltudio o'u cartrefi a'u tiroedd a'u gwlad. Ers hynny, cafwyd sawl cyfnod o ryfela cas, ond y rhyfel presennol yw'r mwyaf gwaedlyd ohonynt o bell ffordd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, lladdwyd dros 43,500 yn Gaza. Mae ystadegau rhyfel bob amser yn hyll, ond gwirioneddol ddychrynllyd ydi deall bod o leiaf 36 o bobl a phlant wedi eu lladd yn Gaza am bob un a laddwyd ar Hydref 7fed. Ac er gweld bob dydd, mae'r byd i raddau helaeth yn dal yn fud a byddar; a'i lywodraethau'n cefnogi ac yn cyfiawnhau'r dial didostur ac anghymesur.

Ond os nad yw llywodraethau'n clywed nac yn codi llais yn erbyn yr hil-laddiad posibl, mae elusennau'n ceisio ymateb. Mae'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) wedi agor Apêl Ddyngarol y Dwyrain Canol er mwyn helpu'r 2.1 miliwn sy'n wynebu newyn yn Gaza a'r 1 miliwn y gorfodwyd iddynt ffoi o'u cartrefi yn Libanus. Mae 1.9 miliwn o bobl Gaza wedi gorfod ffoi o'u cartrefi hwythau. Ac ers i DEC agor ei Apêl mae'r argyfwng a'r angen am gymorth wedi dwysau oherwydd penderfyniad llywodraeth Israel i wahardd UNRWA, asiantaeth y Cenhedloedd Unedig sy'n darparu cymorth i'r Palestiniaid, rhag gweithredu yn Israel (gan ei gwneud yn amhosibl iddi felly fynd ag unrhyw nwyddau dros y ffin i Gaza). Am ba hyd y pery'r byddardod a'r mudandod yn wyneb y penderfyniad annynol hwnnw tybed?

Bydd unrhyw arian a gyfrannwn i'r Apêl neu i'r elusennau Cristnogol sy'n gweithio yn Gaza yn arwydd bychan ein bod ni o leiaf yn credu fod bywyd pawb yr un mor werthfawr. Ac yn arwydd nad ydym, gobeithio, na mud na byddar.


**Mark Davies**
07447804110
Peiriannydd Carafan Teithiol
MD Caravans
Gwasanaethu
Prawf Nwy
Prawf Trydanol
Prawf Tamprwydd
Atgyweirio
Siasis a Brecs
mark@mdcaravans.cymru
MCEA



**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr Bangor Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
Llangefni (01248) 723106 | Porthaethwy (01248) 719517 | Benllech (01248) 852782
Caernarfon (01248) 673616 | Pwllheli (01758) 703000)


# Llwyddo'n Lleol

**– cynllun ARFOR i gynorthwyo graddedigion Cymraeg i gychwyn busnes yn eu hardal**

Mae Llwyddo'n Lleol yn cynnig cyfle i raddedigion a myfyrwyr prifysgolion gorllewin Cymru i ennill hyd at £1,000 i ddechrau busnes ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth. Mae Llwyddo'n Lleol yn cynnig hyfforddiant busnes i raddedigion yn rhanbarth ARFOR sy'n dymuno dechrau busnes. Mae'r rhaglen hyfforddi hon yn croesawu ceisiadau gan unigolion sy'n fyfyrwyr neu'n raddedigion o Brifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sef y tair prifysgol yn rhanbarth ARFOR. Fel rhan o'r rhaglen, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael sesiynau gydag arbenigwyr busnes yn canolbwyntio ar agweddau megis marchnata, rheoli cyllid a denu cwsmeriaid. Yn ogystal â chefnogaeth arbenigol, bydd y rheini sy'n cymryd rhan hefyd yn cael cymorth ariannol gwerth £300 i ddatblygu eu syniad busnes. Adam Jones (Adam yn yr Ardd) fydd yn llywio'r sesiynau ac yn herio'r unigolion i ddefnyddio eu dychymyg wrth gynnig datrysiadau i broblemau busnes. Mae Adam yn un o raddedigion disglair Prifysgol Aberystwyth, ac yn hwylusydd profiadol ym maes addysg uwch a'r byd gyrfaol.

Meddai Adam, "Mae'r cwrs hwn yn gyfle perffaith i glywed oddi wrth entrepreneuriaid, sydd wedi bod yn eich esgidiau chi yn barod ac yn gallu rhannu'u cyngor a'u profiad i'ch rhoi ar ben y ffordd. "Fel un o raddedigion Prifysgol Aberystwyth sydd wedi sefydlu fy musnes fy hun yn y blynyddoedd diwethaf, byddwn i wedi neidio cam a naid i gael cyfle tebyg, yn rhad ac am ddim, a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg!"

Un o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Bangor sydd eisoes wedi elwa o gymorth Llwyddo'n Lleol i fusnesau yw Dylan Glyn. Llwyddodd Dylan gyda'i gais i gael cymorth gan brosiect Llwyddo'n Lleol drwy'r elfen Mentro. Yn sgil y cymorth hwn, cafodd Dylan yr hwb a'r hyder i agor ei siop gyntaf, Cymro Vintage, ar stryd fawr Caernarfon. Mae'r siop erbyn hyn yn mynd o nerth i nerth! Meddai Dylan, "Mae Llwyddo'n Lleol wedi bod yn andros o help i mi. Mae'r prosiect wedi fy helpu i gael yr hyder roeddwn i ei angen i fynd ati i wneud pob ymdrech tuag at ddatblygu'r busnes. Mae'r profiad hefyd wedi rhoi'r hunansicrwydd i mi y galla i wneud unrhyw beth efo'r busnes, hyd yn oed ar ôl i bobl eraill awgrymu na fyddwn i'n llwyddo. Roedd bod o gwmpas pobl oedd yn credu ynddoch chi ac efo'r un meddylfryd wir yn hwb i ni i gyd fel entrepreneuriaid ifanc."

Os oes gennych chi, fel Dylan, syniad busnes sydd angen ei wireddu, neu os ydych chi'n gweld bod yna fwlch yn y farchnad, yna ymgeisiwch am y cyfle hwn heddiw. Mae yna le ar gyfer 12 unigolyn i gyd-ddysgu ar y rhaglen hyfforddiant busnes a fydd yn cael ei chynnal ar gampws Prifysgol Aberystwyth yn ystod penwythnos 15–17 Tachwedd 2024.

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts, cyn-aelod



**Canwr heini**
Llongyfarchiadau i Joe (Gareth Griffith B1) ar gwblhau hanner marathon Llundain. Os nad ydych wedi ei noddi ac eisiau gwneud hynny yna gallwch noddi yma: <https://tinyurl.com/3t8emnbb> neu roi rhodd i aelod o'r côr i'w gyflwyno i Gareth.

**Hwyl yn y Felin**
Ar ddechrau mis Hydref bu noson wych yng nghwmni Côr y Penrhyn ac eraill yn Neuadd Bentref Y Felinheli. Aelodau'r côr o'r Felin oedd wedi trefnu'r noson i gyfrannau at goffrau'r côr gan fod cymaint o gostau yn eu hwynebu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod . Yn hanner cyntaf y noson cyflwynodd y côr nifer o ddarnau poblogaidd fel *Tshotoloza*, *Moliannwn* a chaneuon ysgafn eraill o raglen amrywiol y côr.

**Offerynwyr ifanc**
Yn yr ail hanner cafwyd perfformiadau gwefreiddiol gan bedwar o bobl ifanc yn canu gwahanol offerynnau megis trymped, ffidil a thrombôn. Roedd rhai o'r perfformwyr ifanc yn chwarae gyda cherddorfa ieuenctid Cymru ac roedd un yn chwarae gyda Band Pres Deiniolen. Roedd clywed a gweld y perfformwyr dawnus hyn yn brofiad i'w gofio.

**Northwich**
(Argraffiadau gan Llion Derbyshire, Alun Davies ac Aled Williams)
Mwynhaodd cynulleidfa groesawus berfformiad arbennig gan y côr yn Eglwys Sant Helen yn nhref Northwich, Sir Gaer, Nos Sadwrn, 19 Hydref. Yn ôl yr adborth roedd y gynulleidfa wedi gwirioni ar ddisgyblaeth y côr ac roedd tri o bobl o Dde Affrica yno ar y noson yn mwynhau'r perfformiad o *Tshotoloza* gan y côr. Mae'r darn hwnnw'n boblogaidd iawn ymhobman ac yn rhan sefydlog o raglen y côr. Roedd Llion Derbyshire a Gareth Griffith, ill dau o'r Felinheli ac yn y bas cyntaf, wedi mwynhau'r cyngerdd a pherfformiad y côr yn fawr.






Y côr yn perfformio yn Eglwys Santes Helen, Northwich.

**Digrifwch**
Artist arall a wnaeth argraff ar bawb oedd Alwen Derbyshire yn perfformio cân ddigri. Roedd y gynulleidfa yn ei dwbl yn gwrando ar Alwen yn canu'r penillion doniol a hwyliog a braint oedd cael bod yno'n mwynhau petai ond i glywed yr eitem honno. Un arall a synod lawer oedd i'w gŵr, Llion, sy'n aelod ffyddlon o'r côr fod yn gomedïwr heb ei ail yn rhaffu straeon digri ac yn cyflwyno'r gwahanol eitemau mor rhwydd a llithrig.

Da iawn chi griw'r Felin am ddarparu noson amheuthun.

**Llwch a llechi yng Nghaerdydd**
(Aelodau o'r côr yn dwyn atgofion am y cyngerdd arloesol a gwahanol yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.)
"Profiad arbennig, a gwahanol," meddai un wrth fynegi diolch i Arwel am dywys yr aelodau drwy'r holl ddarnau. Bu'r wythnosau cyn y cyngerdd yn eithriadol o brysur a thrwm gyda dau ymarfer bob wythnos ar ddarnau arbrofol a phur wahanol i'r cyfansoddiadau traddodiadol. Gwen Siân, merch o Rachub, oedd wedi cyfansoddi'r darnau a phawb yn cytuno bod y cyflwyniad yn Stiwdio Weston o flaen cynulleidfa gyfyngedig yn un gwefreiddiol. Roedd y stiwdio yn llawn i'w hymylon ac roedd rhan o Gerddorfa Gymreig y BBC yn cyfeilio i'r côr ar y noson.

**Mwy o argraffiadau'r aelodau**
"Roedd y gynulleidfa yn werthfawrogol iawn o berfformiad y côr yn cefnogi Siân wrth iddi berfformio ar gitâr electronig gyda'r gerddorfa."
"Roedd y côr yn dangos




meistroldeb o amseru a dilyn nodau cymhleth ar adegau."
Wrth gloi'r perfformiad gyda'r côr yn dehongli "Llechen Las" yng nghwmni'r gerddorfa a Gwen fe ddaeth cyfle i'r côr ddangos ei ddawn a chanu gydag arddeliad. Efallai bydd cyfle i ddod â'r perfformiad i'r gogledd, a chael canu yn ein cynefin.

**Henllys, 20 Hydref**
Ar y dyddiad uchod cynhaliwyd perfformiad arall yn Henllys, Ynys Môn ac yn ôl yr arfer bu'n gyflwyniad boddhaol iawn i'r côr ac i'r gynulleidfa. Canwyd darnau poblogaidd fel *Y Ddau Wladgarwr*, *Ysbryd y Nos* a *Moliannwn* ymhlith darnau Cymraeg a Saesneg eraill.

# Cymeriadau'r Côr

**Aelod y mis -**
*Gareth Wyn Griffith, (Joe) o'r Felinheli*




**Be ydy dy enw llawn?** Gareth Wyn Griffith (Joe i fy ffrindiau).
**Oed?** 63 ifanc.
**Gwaith?** Cyfreithiwr wedi ymddeol. Dwi'n gwirfoddoli ar Fwrdd Age Cymru Gwynedd a Môn ar hyn o bryd.
**Lle wyt ti'n byw?** Yn y Felinheli ers 1988.
**Pa dri pheth fasa'n dy ddisgrifio orau?** Angerddol, ffyddlon, gwrandäwr da.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Medi 2023
**Pa lais?** Bariton
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Y sialens i wneud rhywbeth newydd ac i gyfarfod a gwneud ffrindiau newydd.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Ysbryd y Nos (Edward H. Dafis).
**Pwy yw dy hoff ganwr?** Debbie Harry o Blondie.
**Beth yw dy farn am ganu pop?** Wrth fy modd efo pop ac yn caru opera a sioeau cerdd hefyd. Dwi yn chwarae air guitar a drums ers dyddiau ysgol.
**Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** Canu yng Nghadeirlan Bangor y flwyddyn ddiwethaf, fy *début* yn y Côr.
**Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r Côr?** Pêl-droed – Leeds Utd a Chymru. Trafeilio efo Beti Wyn y Motorhome. Reidio beic, cerdded, dwi wedi rhedeg 5k, 10k, Hanner Marathon, Marathon Llundain a cherdded Ultra 60 milltir heb stopio.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Mi faswn yn hoffi cael cyfle i ganu mewn tŷ opera neu mewn gŵyl enwog. Mae'r Côr yn ffodus i gael gwahoddiadau i lefydd gwahanol yn eitha' aml. Dan ni'n mynd i Ganada'r flwyddyn nesa' a dwi'n edrych ymlaen yn fawr at y daith honno i Toronto ac Ottawa.

# Natur o'n Cwmpas

## Y Goeden Afalau - Rhan 1

Mae'r enwau lleoedd Yr Ardd Fawr a Chae'r Berllan yn tystio i bwysigrwydd garddio o gyfnod cynnar yn Nyffryn Ogwen. Roedd cadw gerddi a pherllannoedd yn allweddol i gynhaliaeth yr ardal, a datblygwyd sawl crefft yn y gorchwyl traddodiadol o ddarparu bwyd yn lleol. Da o beth yw cael cynhyrchion ffres o'r fath – yn ffrwythau a llysiau – ar gyfer cegin y cartref, a bellach, mae anogaeth i gymdeithas yn gyffredinol adfer yr arferiad i fod yn fwy hunan-gynhaliol.

Yn dibynnu ar faint eu gardd, byddai gan nifer dda o deuluoedd y fro goed a llwyni ffrwythau – yn eu plith goed afalau (afalau bwyta ac afalau coginio), coed gellyg a choed eirin, a llwyni cyrens duon, cyrens cochion, mafon a chwsberis (eirin Mair) ynghyd â phlanhigion mefus. Byddai'r gwragedd tŷ yn potelu'r ffrwyth ('cyffeithio' oedd yr hen air am hyn), sef eu rhoi i gadw mewn jariau arbennig er mwyn gwneud cacennau a phwdinau yn ystod y gaeaf.

Coeden ffrwythau hynod boblogaidd yw'r goeden afalau – afallen a phren afalau, a rhoi iddi ei henwau eraill. Mae'n syndod cymaint o wahanol fathau sydd i'w cael, a chymaint o amrywiaeth o fewn y mathau hynny. Daw hyn â ni at waith botanegydd o Rwsia, Nikolai Vaviliv, a'i ddamcaniaeth fod un tarddiad i bob rhywogaeth o blanhigion sy'n cael eu ffermio. Yn 1929, aeth ati i geisio penderfynu ble roedd cartref gwreiddiol y



**'Bywyd Llonydd gydag Afalau a Phiser' gan Camille Pissarro (1872)**

goeden afalau. Wedi teithio sawl gwlad, daeth i fryniau godre mynyddoedd Tian Shan yn Kasakhstan, a dyma'r hyn a welodd – yn ei eiriau ef ei hun: 'Yn ymestyn dros y dyffryn eang islaw yr oedd coedwig. Ond nid unrhyw fath o goedwig. Yr oedd y lle'n un o goed afalau gwylltion am y gwelech chi, yn drwm o ffrwyth aeddfed, persawrus.'

Yn 2017, o ganlyniad i brofion DNA sylweddol. profwyd bod damcaniaeth Nikolai Vaviliv wedi bod yn gywir. Wrth gwrs, nid ef oedd y cyntaf i ganfod y coed afalau gwylltion yn Kasakhstan, oherwydd roedd yr afalau gwreiddiol a gaed yno – *Malus sieversii* – wedi ymddangos ar hyd lwybrau masnach Canolbarth Asia yng nghanol yr ail ganrif Cyn Crist, yn cael eu croesi gydag afalau surion cynhenid mewn gwahanol wledydd.

(y tro nesaf, rhoddir hanes rhai o'r gwahanol fathau o afalau)

---

*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


BARBWR OGWEN
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Natasha

Gareth Williams
TREFNYDD ANGLADDAU
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

# CHWILAIR

## CASGLWYR NEWYDDION Y LLAIS 1974 - 2024



| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| M | A | R | R | E | D | G | L | Y | N | N | J | O | N | E | S | A | M | M | A |
| W | F | G | L | A | S | N | A | N | T | D | A | V | I | E | S | H | A | E | R |
| I | E | J | L | N | C | M | B | R | V | B | H | X | T | J | U | I | R | R | S |
| V | S | H | E | E | I | M | G | V | E | H | M | H | D | W | H | U | Y | F | Z |
| M | X | V | A | W | D | D | N | A | P | T | E | A | U | Q | U | S | E | Y | O |
| S | F | R | P | O | Y | Q | Z | G | R | T | H | H | C | U | M | W | D | N | N |
| A | O | Y | R | R | I | A | S | Z | A | S | U | O | T | F | D | X | W | M | U |
| M | S | P | W | D | R | H | C | O | Q | N | H | W | L | E | H | O | A | O | Y |
| O | E | S | E | A | E | G | W | E | O | A | M | H | E | I | P | T | R | R | T |
| H | I | E | C | L | B | E | B | C | U | F | U | J | P | L | V | T | D | G | M |
| T | V | H | I | A | N | V | V | D | C | E | B | B | F | R | F | E | S | A | O |
| N | A | G | G | W | J | V | I | I | R | N | R | X | I | M | H | T | R | N | T |
| E | D | U | O | D | S | K | O | P | W | O | R | C | M | K | C | B | O | R | C |
| W | A | H | X | A | V | R | Y | H | S | N | T | M | R | E | F | Y | J | D | Z |
| N | D | E | H | C | B | C | W | O | S | N | C | R | A | I | X | N | I | L | X |
| A | N | O | J | A | J | M | B | W | T | A | E | X | M | D | X | K | F | U | P |
| C | E | J | Q | N | Y | O | I | L | F | I | E | R | Z | Q | R | O | C | T | D |
| G | W | W | S | O | L | Z | E | B | E | H | A | J | K | J | C | L | N | L | R |
| V | G | O | D | I | L | W | Y | N | P | R | I | T | C | H | A | R | D | G | J |
| P | W | P | G | F | S | O | W | J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U |

Yn y Chwilair mis yma mae deuddeg ENW RHAI A FU'N CASGLU NEWYDDION I'R LLAIS RHWNG 1974 A 2024 i'w darganfod . Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).
Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 29 Tachwedd . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr. **Cofiwch nid oes angen anfon tudalen y Chwilair o'r Llais i fewn i mi, bydd yr atebion ar ddarn o bapur neu gerdyn yn iawn.**

**Dyma atebion Chwilair Hydref**: Cerrig Mân; Cor Meibion y Penrhyn; Cymdeithasau'r Fro; Dyddiadur y Dyffryn; Gair neu ddau; Gair o'r Dosbarth; Llofrydd yn y teulu; Nyth y Gân; Pwy sy'n cofio ddoe; Sgotwrs Ogwen; Tri brawd o Dregarth; Ysgol Glan Rhyd Idwal.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir**: Emrys Griffiths, Rhostryfan; Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf; Judith Hughes, Llangoed; Olive Williams, Maes-y-Garnedd; Elizabeth Buckley, Tregarth; Dorris Shaw, Bethesda; Rosmary Williams; Tregarth; Eirwen Owen, Erw Las; Gwenda Roberts, Rhosmeirch;

**Enillydd Hydref**: Olive Williams, Maes-y-Garnedd, Bethesda, Gwynedd.

# YSGOL TREGARTH

**Ymweld â Chastell Caernarfon**
Fel rhan o'r thema, cafodd plant dosbarth Yr Aran ddiwrnod i'r brenin yng nghastell Caernarfon. Roedd yn gyfle i weld nifer o nodweddion castell a dwyn i gof ddysgu blaenorol. Cawsom weld holl ryfeddodau'r castell gan fentro dringo ambell dŵr! Diwrnod llawn profiadau ac mae'r ymweliad wedi'n helpu gyda'n gwaith yn y dosbarth.

**Disgo'r Hydref**
Cafwyd disgo llwyddiannus iawn eleni. Diolch o galon i'r Cyfeillion a oedd wedi gweithio'n galed iawn i sefydlu pwyllgor a threfnu'r disgo, bwyd a diod. Diolch i chi i gyd am gefnogi. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod i drefnu digwyddiad arall yn fuan - croeso cynnes i bawb.

**Ymweld â'r Amgueddfa Lechi**
Yn ystod y tymor, mae dosbarth Yr Elen wedi bod yn astudio'r cwestiwn mawr 'Beth sy'n gwneud ein hardal ni'n arbennig?'. Fel sbardun, cafodd y dosbarth ymweld â'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Dysgon ni am hanes cyfoethog y diwydiant llechi yng Nghymru, a chael cyfle i weld hen beiriannau, adeiladau hanesyddol, a hyd yn oed glywed straeon y chwarelwyr. I orffen ein trip, cawsom dro hyfryd i fyny at Ysbyty'r Chwarel, ac ar y ffordd buom yn lwcus i weld geifr gwyllt yn crwydro!



**Yr Wyddfa**
Yn ddiweddar, cafodd blwyddyn 5 a 6 brofiad bythgofiadwy wrth gerdded i fyny'r Wyddfa. Roedd y tywydd yn berffaith, ac roedd y plant wedi gwirioni gweld y golygfeydd anhygoel o'u cwmpas. Rydym yn falch iawn o'r plant i gyd am ddyfalbarhau a gweithio'n galed i gyrraedd y copa wrth ddangos cyfeillgarwch ac anogaeth tuag at ei gilydd ar hyd y daith. Diolch yn fawr iawn i Heicio a Beicio Eryri am ein tywys ni ac i Mr Roberts am drefnu'r profiad.



**Pêl-droed**
Aeth pedwar tîm pêl-droed draw i gaeau Treborth i gynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth yr Urdd. Bu dau dîm cymysg o flwyddyn 3 a 4, a dau dîm o enethod blwyddyn 4, 5 a 6 yn cymryd rhan. Cynrychiolwyd yr ysgol yn arbennig trwy gydol y diwrnod gan gydweithio fel tîm, gwella ar ôl pob gem ac ymddwyn yn wych drwy'r dydd. Roedd tîm 1 blwyddyn 3 a 4, a thîm 1 genethod yn anlwcus iawn i beidio â mynd trwodd i'r rownd nesaf ar ôl gorffen yn ail yn eu grŵp. Rydym fel ysgol yn falch iawn o'r holl blant.

**Gweithdy Dŵr Cymru**
Daeth Catrin, swyddog Dŵr Cymru, atom yn ddiweddar i ddysgu holl blant yr ysgol am gylched dŵr a sut mae dŵr yn cyrraedd ein tai. Roedd y plant wedi mwynhau cael cymryd rhan yn y cyflwyniad. Diolch yn fawr iawn i Dŵr Cymru am y gweithdy addysgiadol a hwyliog. Roedd y plant wrth eu bodd!



# Nyth y Gân

## MWYAR DUON

Am oriau'n y mieri yr adar
A hudwyd i'w profi;
Mae'r fwyaren eleni
Yn llawn iawn i'n llygaid ni.



## CÂN YR EHEDYDD

Mynydd oedd ein chwaraele
Yn blant y dyddiau gynt,
A melys yw'r atgofion
Am lwybrau braf ein hynt.

Naturiol ydoedd popeth
O dan ein traed fan hyn,
Y glaswellt mân a'r rhedyn
A'r llus ar lethrau'r bryn.

Cân 'hedydd glywid yno
Uwch llymder garw'r tir,
A'n denu ni wnaeth honno
I wrando arni'n glir.

## Y CWM

Mae hen gadernid yno
I'w weld dan wacter nef
Ond newid ddaw bob tymor
I'r lliwiau ynddo ef.

Fe dreulia creaduriaid
Eu hoes ar lethrau'r cwm
Er bod eu bywyd yno
Gan amla'n ddigon llwm.

Ond O! am heddwch deimlwn
Yn ystod oriau'r haf;
Bydd hynod, wir dawelwch
Yno dan heulwen braf.

**Dafydd Morris**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Diwrnod Blasu**
Ddydd Llun, Medi 30ain, croesawyd disgyblion Blwyddyn 6 y dalgylch am fore blasu. Roedd llond neuadd o wynebau hapus a brwdfrydig ar ôl treulio bore mewn gwersi megis Coginio, Celf, Cerdd a Ffrangeg. Roedd pob un ohonynt wedi ymddwyn yn arbennig o dda gan ganolbwyntio a chyfrannu'n wych. Da iawn chi.





Rhai o ddisgyblion ysgolion cynradd y dalgylch yn mwynhau yn Ysgol Dyffryn Ogwen!

**Te Prynhawn yn Neuadd Ogwen**
Bu criw o ddisgyblion Lletygarwch Blwyddyn 11 draw i Neuadd Ogwen i gynorthwyo gyda the prynhawn Dyffryn Caredig. Cafodd trigolion Bethesda brynhawn o sgwrsio, gwledda ac adloniant gan Wil Tân. Roedd canmoliaeth fawr i'r disgyblion gan y trefnydd, Mrs Linda Brown, "Diolch o galon i'r criw o ddisgyblion o Ysgol Dyffryn Ogwen a ddaeth draw i fy helpu hefo'r prynhawn arbennig i'r henoed yn Neuadd Ogwen. Mi weithiodd y criw yn galed iawn o dan oruchwyliaeth wych Mrs Ceri Owen – "Criw annwyl, cwrtais a gweithgar – o'n i mor, mor falch ohonynt. Diolch o galon iddynt i gyd."



Criw Lletygarwch Blwyddyn 11

***Llais Ogwan* yn 50!**
Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn ymweld â'r arddangosfa arbennig yn Neuadd Ogwen i ddathlu *Llais Ogwan* yn 50eg!


**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â
**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com






**Rhyd Ddu**
Bu'r rhan fwyaf o Flwyddyn 7 yn ffodus i gael aros yn Rhyd Ddu yn ddiweddar ble cawsant y cyfle i gerdded yr Aran, rhai mewn heulwen a rhai yn y gwynt a'r glaw, ac yna taith gerdded o Ryd Ddu i Feddgelert. Dangosodd pob un ohonynt ddyfalbarhad a gwydnwch aruthrol. Treuliodd y flwyddyn eu hamser yn cydweithio a datrys problemau er mwyn dod i adnabod ei gilydd yn well. Diolch yn fawr i fyfyrwyr Blwyddyn 12 a ddaeth i gefnogi, diddanu a chyd-weithio gyda Blwyddyn 7 ar y daith.

### Cystadleuaeth PobUrdd

Mae'r ddwy yma wedi arddangos eu bod yn fentrus a chreadigol gan ddod i'r brig yng nghystadleuaeth PobUrdd yr ysgol. Roedd yn rhaid iddynt addurno Cwcis ar gyfer y rownd hon a llwyddodd y ddwy i gynhyrchu campweithiau! Byddant yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf.




Addison Elis-Williams ac Angharad Llwyd

### Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth 2024

Roedd yn ddiwrnod i godi ymwybyddiaeth am hiliaeth yn ystod mis Hydref. Dyma rai lluniau o'r disgyblion yn dangos y cerdyn coch i hiliaeth.











### Adran Fathemateg

Bu disgyblion Mathemateg ym Mlwyddyn 12 ac 13 yn cystadlu yn yr Her Fathemategol Hŷn. Bu'r disgyblion yn cymhwyso eu sgiliau mathemategol i broblemau cymhleth a diddorol mewn cystadleuaeth sy'n cael ei chynnal ar draws y DU gyfan. Y rhai a daeth i'r brig gyda thystysgrif efydd oedd Twm, Eban a Daniel (Bl12) a Megan, Seren, Callum, Iestyn ac Emma (Bl13). Llongyfarchiadau!

**Rhai o'r disgyblion a fu'n cymryd rhan yn y gystadleuaeth.**

**CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL**

## Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llandygai** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol

Cysylltwch am ffurflen gais a bydd angen ei ddychwelyd erbyn **31 Rhagfyr 2024**

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Llandygai,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE.
01248 602131
E bost:
cyngorllandygai@ogwen.org

**CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL**

## Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Bethesda** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc erbyn **31 Rhagfyr 2024**

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Bethan Roberts,
Cyngor Cymuned Bethesda,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorbethesda@ogwen.org

**CEISIADAU AM NAWDD ARIANNOL**

## Hysbysiad Pwysig

Mae **Cyngor Cymuned Llanllechid** yn gwahodd ceisiadau am nawdd ariannol gan Gymdeithasau/ Mudiadau lleol.

Os ydych am wneud cais anfonwch eich Mantolen Ariannol ddiweddaraf ynghŷd â manylion eich banc at y Clerc cyn **31 Rhagfyr 2024**

**Clerc a Phrif Swyddog Ariannol:**
Caroline Jones,
Cyngor Cymuned Llanllechid,
26 Stryd Fawr,
Bethesda, LL57 3AE
01248 602131
E bost: cyngorllanllechid@ogwen.org

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
(07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

**Ymddeoliad**
Dymunwn ymddeoliad hapus i Kevin, Allt Pen-y-bryn. Mwynha'r "beic".

**Ysbyty**
Cofion at y cyfeillion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall fod rhai wedi dod gartref erbyn hyn: Gwyn Williams, Carneddi; Hedd Rhys, Garneddwen; Jean Thomas, Abercaseg; Marion Sullivan, Rhes Mostyn.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef Michael, Delyth ac Alice, Bryn Caseg, wedi colli mam, mam-yng-nghyfraith a nain, sef Mrs Eirian Owen, Craig Pandy, a fu farw ar 28 Medi.

Ceri a Dennis Dart a'r teulu, Rhos y Nant, wedi colli chwaer-yng-nghyfraith a modryb yn Llanfyllin.

Mrs Marian Davies a'r teulu, Maes Coetmor, wedi colli priod, tad a thaid annwyl, sef Mr Alan Davies.

Mrs Hilda Campbell a'r teulu, Erw Las, a Mrs Nen Davies a'r teulu, Bryntirion, yn eu profedigaeth o golli eu nith, Mrs Linda Hughes, Tregarth.

**Penblwyddi Arbennig**
Ar 25 Hydref bu Mrs. Jean Ogwen Jones, Tegfan, yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed. Pen-blwydd hapus iawn i chi Jean. Gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.
Bu Sioned Ll. Jones, Pantglas, yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 mlwydd oed, ac ymddeolodd o'i gwaith ar 2 Tachwedd.

**Clwb Gorffwysfan**
Cofiwch am ein gwibdaith i Warrington, ddydd Mercher, 4 Rhagfyr. Cychwyn ger y gofeb am 8.00yb. Cofiwch hefyd am ein cinio Nadolig yng Nghlwb Rygbi Bethesda, ar ddydd Mercher, 11 Rhagfyr, am 12.30yp. Enwau a blaendal i Joe.

## YR EGLWYS UNEDIG

**Oedfaon**
Mae ein diolch yn fawr i'r canlynol am ddod i'n gwasanaethu ar y Suliau diweddar: ein Gweinidog, Y Parchedig Nerys Griffiths, Y Parchedig Cledwyn Williams, Mr Richard Morris Jones a Mr Donald Pritchard. Cafwyd gwasanaeth undebol gyda Chymun yng Nghaeathro, ac yna gwasanaeth undebol gyda Chymun yma yn Jerusalem. Mor braf yw cael cydaddoli gyda'n cyfeillion o eglwysi eraill yr ofalaeth.

**Y Gymdeithas**
Cawsom chwip o noson agoriadol yng nghwmni'r grŵp lleol, Hogai'r Bonc. 'Roedd eu hafiaith yn heintus, a'u hiwmor yn codi gwên ar wyneb pawb. 'Roedd y gynulleidfa'n morio canu, a hyd yn oed y mwyaf cryglyd ohonom yn ymuno mewn ambell i gytgan. Er bod y caneuon yn rhai cyfarwydd, 'roedd y llyfrynnau geiriau'n gaffaeliad mawr. Neville, y Cadeirydd, a groesawodd yr Hogia, ac wrth i'r canu ddod i ben, diolchodd iddynt am noson wirioneddol ddifyr. Gresyn bod nifer o ffyddloniaid y Gymdeithas ar goll am wahanol resymau.

Dymunwn wellhad buan i bawb sydd o dan y don, a gobeithio y bydd nifer dda yn medru dod i'r cyfarfod nesaf, Tachwedd 14eg. Yn ôl y rhaglen, byddai Ioan Jones yn sôn am ei daith i Everest, ond ar y dyddiad hwnnw, bydd Ioan yn dal i gael ei ffilmio ar Kilimanjaro. Gobeithio y medrwn ei wahodd atom rywdro eto yn y dyfodol.'Rydym yn ffodus iawn bod gennym doreth o dalent yn Nyffryn Ogwen i ddewis ohono, felly edrychwn ymlaen at noson ddifyr arall ym mis Tachwedd. (*Barbara Jones*)

**Llongyfarchiadau**
Dathlodd Jean Ogwen Jones ei phen-blwydd yn 90 yn ystod mis Hydref.'Rydym fel Eglwys yn ei llongyfarch yn fawr, ac yn dymuno pob bendith ac iechyd iddi i'r dyfodol. Ymlaen i'r degawd nesaf 'rwan, Jean!

**Cariad Mam**
Yn ddiweddar, wedi blynyddoedd o ddioddef, derbyniodd Ioan, ŵyr Jean, aren newydd – wedi'i rhoi iddo gan ei fam, Eleri. Braf yw cael dweud bod y llawdriniaeth i'r ddau wedi bod yn llwyddiannus, a gobeithiwn yn fawr y bydd Ioan yn cael blynyddoedd maith o iechyd da o hyn ymlaen. Diolchwn hefyd am ddewrder a chariad Eleri tuag at ei mab.

**Cyhoeddiadau'r Sul**
Tachwedd 17: Y Parchedig Robert Capon (5)
Tachwedd 24: Y Gweinidog
Rhagfyr 1: Y Parchedig Anna Jane Evans (5)
Rhagfyr 8: Nadolig y Plant (10.30)
Rhagfyr 15: Gwasanaeth Nadolig Cymunedol (7)
Rhagfyr 22: Y Parchedig R.O. Jones
Rhagfyr 25: Cymun (9.30) o dan ofal Y Parchedig R.O. Jones

Ogwen
Adferiad Corfforol
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN
Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein 07743373895 | info@ogwenphysical.co.uk | ogwenphysical.co.uk
Bethesda RFC Dol Dafydd, Bethesda, Bangor LL57 3NE

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs: 01248 601754
07770 568743 (symudol)

MODURON PANDY Cyf.
UNIPART CAR CARE CENTRE
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY












# Hen Ysbyty Chwarel y Penrhyn – dechrau ar waith cadwraeth i'w diogelu

Bydd rhaglen helaeth o waith cadwraeth sensitif ar y gweill yn fuan ar safle Ysbyty Chwarel y Penrhyn ar llwybr beicio Lôn Las Ogwen ym Mhont y Tŵr. Mae'r prosiect yn digwydd mewn partneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Welsh Slate (rhan o Grŵp Breedon) a Cadw fel rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi, sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

Mae'r cam hwn yn dilyn rhaglen o waith cofnodi a gwaith brys gan gynnwys clirio llystyfiant a gwaith maen a wnaed yn gynharach yn 2024.

Mae gan yr Ysbyty ran bwysig yn hanes llechi Cymru, ac yn arbennig rôl iechyd a lles o fewn y gymdeithas lechi. Bydd y gwaith yn dechrau ym mis Tachwedd 2024, a disgwylir iddo bara tua saith mis, gan ganolbwyntio ar atal dirywiad pellach a gwneud y safle'n fwy sefydlog ac yn fwy diogel i ymwelwyr. Bydd yn cynnwys:

- sefydlogi a chyfnerthu cyflwr y waliau sy'n dirywio drwy fynd i'r afael â diffygion strwythurol
- sefydlogi a chyfnerthu'r gwaith maen a phwyntio morter
- cyflwyno copin cerrig a gwaith ar bennau'r waliau er mwyn lleihau faint o ddŵr sy'n mynd i graidd y wal
- gwarchod y manylion pensaernïol a hanesyddol sy'n weddill oddi mewn
- rheoli twf llystyfiant.

Bydd sicrhau bod y strwythur yn ddiogel hefyd yn caniatáu cynnal a chadw parhaus yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd dros Economi a Chymuned:

'Rydym yn hapus iawn i weld y gwaith cadwraeth yn Ysbyty Chwarel y Penrhyn yn datblygu. Bydd y gwaith hanfodol hwn yn diogelu'r heneb ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan hwyluso gwell cyfleoedd ar gyfer mynediad a dehongli'r safle poblogaidd hwn. Mae Cyngor Gwynedd yn falch o fod yn bartner yn y prosiect hwn ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda Llechi Cymru a Cadw ar y cynllun.'

Dywedodd yr Arglwydd Dafydd Wigley, Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd-orllewin Cymru:

'Mae stori iechyd a lles yn y dyffrynnoedd llechi yn rhan hanfodol a diddorol o'i hanes. Roedd y chwarelwyr yn arloeswyr pan ddaeth hi i ofal cymdeithasol, ac arweiniodd yr ysbytai hyn y ffordd mewn llawer o'r triniaethau a'r feddyginiaeth yr ydym yn dibynnu gymaint arnynt yn y gwasanaeth iechyd heddiw. Mae diogelu'r strwythur hwn yn hanfodol wrth adrodd hanes gofal iechyd ar draws y Safle Treftadaeth y Byd.'

Rhaglen fuddsoddi ddiwylliannol yw Llewyrch o'r Llechi, sy'n cael ei harwain gan Gyngor Gwynedd, ac sydd werth dros £27m i gyd. Mae'n cynnwys gwaith i greu tair canolfan ddiwylliannol yn ardaloedd Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog gyda llawer o brosiectau wedi'u harwain gan sefydliadau sydd â›u gwreiddiau yn y cymunedau hynny.

Yn Nyffryn Ogwen fel rhan o brosiect Llewyrch o'r Llechi, ochr yn ochr â›r buddsoddiad yn Ysbyty Chwarel y Penrhyn, mae gwelliannau'n digwydd ar hyd Lôn Las Ogwen. Ym Methesda gerllaw, mae Neuadd Ogwen wedi derbyn cyllid i uwchraddio'r adeilad er mwyn cadarnhau ei statws fel canolfan ddiwylliannol fywiog i'r ardal. Bydd menter gymdeithasol leol, Partneriaeth Ogwen, hefyd yn derbyn cyllid i adfywio adeilad gwag yng nghanol y dref yn ganolfan dreftadaeth a chymunedol.

# Pen-blwydd Llais Ogwan yn

**Dyma luniau o'r arddangosfa yn Neuadd Ogwen 22 - 26 Hydref, a'r swper dathlu yn y Clwb Rygbi 25 Hydref. Daeth y gantores Lleucu Gwawr i berfformio yn y swper dathlu. Fe'i cyflwynwyd gan Neville Hughes a chafwyd eitem neu ddwy ganddo ar ei gitâr. Llywyddwyd gan Dewi Morgan, Cadeirydd Pwyllgor Llais Ogwan, a diolchodd i holl gefnogwyr y papur am eu hymdrechion i sicrhau ei lwyddiant a'i barhad.**









**Cynnwys yr Arddangosfa:**

Dros gant o luniau rhai o dudalennau'r ôl-rifynnau fesul degawd; sioe sleidiau powerpoint o gasgliad helaeth André Lomozik o luniau'r ardal a lluniau'n ymwneud â chynhyrchu'r papur; detholiad o 'Dyddiadur Digwyddiadau Dyffryn Ogwen' y diweddar J. Elwyn Hughes; cynnyrch gweithdy Buddug Roberts - 'Llais Ifanc' - gan ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen; ôl-rifynnau'r papur wedi eu rhwymo, gyda chydweithrediad y Llyfrgell; a'r hen galendrau.







Lleucu Gwawr














**JOHN ROBERTS**
**Paentiwr**
**Papurwr**
**Teilsiwr**
**Symudol:** 07747 628650
**Ffôn:** 01248 600995

**1969**
**M.HUGHES A'I FAB**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda ☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
mhughesandson@hotmail.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

**BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS**

01248 361044
07771 634195
Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partion ac ati.
*Bysus Gwyrdd Rhiwlas*
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY SEFYDLWYD 1997
PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Cyngor Cymuned Llanllechid

Cynhaliwyd cyfarfod nis Hydref nos Iau, 10fed o Hydref yn Festri Capel Bethlehem, Talybont. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Lowri Evans.



**Giât Mynydd Bryn Hall**
Adroddwyd bod Partneriaeth y Carneddau wedi gorffen y giât mynydd draddodiadol yn Bryn Hall. Mae'r giât wedi ei chynllunio i weddu gyda'r amgylchedd o'i chwmpas.

**Torri Gordyfiant**
Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud trefniadau i dorri'r gordyfiant yn ochrau gwaelod mynwent Llanllechid.

**Murlun Safle Bws Talybont**
Rydym yn falch o ddweud bod y murlun yn safle bws Talybont wedi ei orffen. Diolch i Gronfa Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd ac i Dragon's Back Race am eu rhodd. Diolch hefyd i Elen Williams am ei gwaith creadigol yn creu'r murlun.




## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

**Llongyfarchiadau**
Pen-blwydd hapus i Mrs Beryl Bryant, 12 Bro Infryn, a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 30 Hydref. Gobeithio y cei ddiwrnod penigamp, Beryl, yn dathlu gyda dy deulu a ffrindiau.

**Bingo Bach**
Gwnaed elw o £200 yn y Bingo a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar 25 Hydref, gyda'r elw yn mynd tuag at Freshfields, elusen achub anifeiliaid yn Nebo. Diolch yn fawr iawn i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson. Bydd Bingo Nadolig yn cael ei gynnal ar 29 Tachwedd am 7yh, gyda pharti bach yn ogystal â'r raffl a tombola arferol. Bydd yr elw yn mynd tuag at Tŷ Gobaith. Gwerthfawrogir unrhyw wobrau tuag at y noson.

**Ffair Nadolig**
Cynhelir Ffair Nadolig tuag at eglwys St Cedol, Pentir yn y Ganolfan ar 23 Tachwedd am 1.30yp. Bydd amrywiol stondinau gyda phaned a mins pei.

**Cylch Glasinfryn**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cylch yn y Ganolfan ar 9 Hydref. Cafwyd prynhawn difyr i'w gofio yng nghwmni Ann Catrin Evans, gofaint a gemydd o Dregarth. Rhoddodd amlinelliad o'i gyrfa o'r amser y gadawodd Brifysgol Brighton hyd at heddiw lle mae ganddi weithdy a Siop yr Iard yng Nghaernarfon mae yn ei rannu gyda chrefftwyr eraill. Ers 1989 mae wedi gweithio ar amryw brosiectau, comisiynau ac arddangosfeydd. Enillodd Fedal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1993 ac yna eto yn gydradd gyntaf yn 1997. Mae hi hefyd wedi gwneud amryw o goronau ar gyfer Eisteddfodau. Un o'i chomisiynau mwyaf nodweddiadol yw platiau drws a dolenni efydd ar bob un drws yn adeilad Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd. 'Roedd Ann Catrin wedi dod ag amryw enghreifftiau o'i gwaith gyda hi a lluniau o'r coronau bendigedig a cherfluniau mawr oedd hi wedi eu gwneud. Yn wir, mae hi'n ferch hynod dalentog ac yn siarad yn hamddenol braf am ei gwaith – pnawn a fwynhawyd yn fawr gan bawb! Rhoddwyd y diolchiadau gan Mair, a Margaret a Kath ddarparodd y te.
Trefnwyd y Cinio Nadolig ym Mhant Du, Penygroes ar 11 Rhagfyr am 12.30yp. Enwau erbyn cyfarfod mis nesaf. Ar 13 Tachwedd, y siaradwr fydd John Cole, Treftadaeth Menai, ar 'Croesi'r Fenai – pam a sut?' Estynnir croeso cynnes i bawb am 2yp yn y Ganolfan.

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,** Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB (01248 601318) carys16@hotmail.com

**Y Frwydr yn Parhau**

Bu i berchennog presennol Tafarn y Faenol, Pentir gyflwyno trydydd cais cynllunio i Gyngor Gwynedd ar gyfer troi'r adeilad yn llety gwyliau hunangynhaliol. Roedd llety ar gyfer y tafarnwr/tafarnwraig yn bodoli'n barod ar yr ail lawr ac roedd y cais am rannu'r llawr gwaelod yn ddau lety ychwanegol.

Cyflwynwyd adroddiad gan gwmni o Loegr ar ran y perchennog, Duncan Gilroy, yn datgan nad oes modd rhedeg y dafarn yn broffidiol, a'r unig opsiwn yw troi'r adeilad yn llety.

Bu i swyddogion Cyngor Gwynedd argymell gwrthod y cais oherwydd diffyg 'gwybodaeth i gyfiawnhau colli adnodd i'r gymuned'. Bu i'r Cynghorydd Dafydd Meurig siarad yn erbyn y cais cynllunio gan nodi nad oedd tystiolaeth ariannol wedi ei gynnwys yn y dogfennau. Ar ran y gymuned leol, nododd Cefin Roberts bod troi'r adeilad yn llety yn golygu colli adnodd cymunedol pwysig a bod gormodedd o lety gwyliau yn bodoli yn yr ardal.

Ar ôl trafodaeth fer cytunodd aelodau'r pwyllgor cynllunio i wrthod y cais yn unfrydol.

Ond, nid yw'r stori ar ben! Ddiwrnod anfon newyddion y pentref i'r golygydd daeth tro arall yn 'saga' diweddar Tafarn y Faenol. Bu i'r perchennog roi'r adeilad ar werth gydag amcan bris o £550,000. Gan inni wybod mai ond ychydig dros £200,000 dalodd y perchennog am y dafarn, mae'r pris gwerthu cyfredol wedi mwy na dyblu. Difyr fydd gweld y cam nesaf!

**Bore Coffi Macmillan, Medi 2025**

Mae'r elusen Macmillan yn cyflawni gwaith gwerthfawr iawn yn rhoi cymorth i'r rhai sy'n dioddef gyda chanser. Mae trigolion Pentir wedi bod yn cefnogi'r elusen ers rhai blynyddoedd trwy gynnal bore coffi. Michelle a Linda yw'r ddwy sydd wedi arwain y fenter, a bu iddynt ddarparu llu o deisennau ynghyd â the a choffi. Y flwyddyn hon daeth dros 40 i brofi'r danteithion a llwyddwyd i godi £520 i'r elusen. Diolch i Michelle a Linda ac i bawb gefnogodd.

## Eglwys St Cedol, Pentir

**Clwb Crefftau**

Bydd Clwb Crefftau Cedol, sef Dwylo Dawnus, yn cyfarfod ar yr 2ail a'r 4ydd prynhawn Gwener o bob mis am 2yh. Dewch â'ch crefftwaith i gael hwyl, panad a sgwrs.

**Te Bach**

Mae Eglwys St Cedol yn cynnal ei The Bach ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r cloch. Bydd y Te Bach nesaf ar y 4ydd o Ragfyr. Mae croeso cynnes i chwi ymuno â ni am brynhawn hwyliog gyda phanad, teisan a sgwrs.

**Ffair Nadolig**

Bydd Eglwys St Cedol yn cynnal Ffair Nadolig eleni ar ddydd Sadwrn y 23ain o Dachwedd am 1.30yp yn y Ganolfan, Glasinfryn. Bydd amrywiol stondinau a phanad a mins pies. Croeso cynnes i chwi ymuno â ni.

**Cymanfa Garolau**

Bydd Cymanfa Garolau yn cael ei chynnal ar y 24ain o Dachwedd am 7.30yh yng Nghapel Siloh, Tregarth, gyda Chôr Glanaethwy a'r unawdydd Meinir Wyn Roberts (soprano). Mae mynediad yn £10. Bydd yr elw er bydd Cronfa Atgyweirio Eglwys St. Cedol.

**Gŵyl Coeden Nadolig**

Eleni mae Eglwys St Cedol, Pentir yn cynnal Gŵyl Coeden Nadolig dros benwythnos y 14eg a'r 15fed o Ragfyr. Bydd yr Eglwys ar agor yn y prynhawn rhwng 1.30yh a 4yh. Rydym yn gwahodd clybiau a sefydliadau lleol i gymryd rhan drwy arddangos coeden addurnedig i hyrwyddo eich clwb/sefydliad. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch â Nia ar 07719 918686 neu Eirwen a'r 07732 118129

**Gwasanaethau'r Sul**

Mae Gwasanaeth bob bore Sul am 9.30yb. Mae croeso cynnes i bawb ymuno yn y gwasanaethau, gyda phanad a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**

Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall i ymwneud â'r eglwys, cysylltwch â'r Y Parch. Ddr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 yna i chi os am unrhyw wybodaeth neu gael sgwrs.

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**
Cysylltwch â **Neville Hughes** (Ffôn 600853) nev_hughes@btinternet.com

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead cyf
Swyddfa Gofrestredig Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

**CANOLFAN CEFNFAES**

## Gyrfa Chwist

Tachwedd 26
Rhagfyr 10 a17
am 7 o'r gloch. Croeso i bawb

## "ELVIS YN FYW"

CYNGERDD LAS VEGAS
WYNNE ROBERTS

CLWB CRICED, BETHESDA

NOS WENER, TACHWEDD 22
AM 7 O'R GLOCH

MYNEDIAD: £10.00 (DAN 16 OED: £5)
*TICEDI GAN ROSEMARY 07950589170*
*NEU TALU AR Y DRWS*

**ELW: EGLWYS SANTES FAIR, TREGARTH.**

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

**Nos Lun, 9 Rhagfyr**
**7.00 Y Cyfarfod Blynyddol**
**7.15 Dr. Nia Jones**
*"Owain Glyndwr"*
*Lleoliad y Cyfarfodydd:*

**Lleoliad y Cyfarfodydd:**
**Wyneb yn wyneb:** Yn festri Capel Jerusalem, Bethesda. Cofrestrwch efo garethllwyd197@btinternet.com

**Rhithiol tros Zoom:** Cofrestrwch efo bethan@ogwen.org erbyn 12 o'r gloch dydd Llun y ddarlith ar yr hwyraf.

**FFI AM Y CWRS:**
**£10.00 i rai mewn gwaith**
£5.00 i bensiynwyr a'r di-waith
Plant ysgol am ddim
Cost darlithoedd unigol = £2.00

Y ffioedd i'w talu i gyfrif "Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen" drwy:
BACS: **40-16-02 41386212,** neu
Gydag arian parod ar y noson.

## Clwb Coffi Talybont

**FESTRI BETHLEHEM**

Boreau Llun, 10.30 – 12.00
**Tachwedd 25**
**Rhagfyr 11** (am 11.30)
Croeso cynnes i bawb

**FESTRI CARMEL**

Llanllechid

## Te Bach

Dydd Llun, 25 Tachwedd
Dydd Llun, 9 Rhagfyr
2.30 – 4.00

## Cymanfa Garolau

**yng Nghapel Shiloh Newydd, Tregarth**

**24 Tachwedd am 7.30**
Arweinydd : Cefin Roberts
Unawdydd : Meinir Wyn Roberts
Côr Glanaethwy
Elw : Atgyweirio
Eglwys St. Cedol, Pentir

## Bethlehem Talybont Ffair Nadolig

yn y festri
**Nos Fawrth, 3 Rhagfyr**
am 6.30yh
Mynediad £1.00
**Croeso cynnes i bawb**




## CAFFI COLLED BETHESDA

Dydd Llun 1af & 3ydd bod mis
**Canolfan Gorffwysfan**
* * * * * * * * * * * * * *
Tach 18: **I'w drefnu.**
Rhagfyr 2: **panad a sgwrs**
Rhagfyr 16: **Cinio Nadolig**
Ionawr 13: **Panad a sgwrs**
Ion 27: **Blwyddyn Newydd Sineaidd**
* * * * * * * * * * * * *
**Cysylltwch â'r Caplan Bro:**
**Parchg. Sara Roberts:**
**Sararoberts@churchinwales.org.uk**
**Ffôn symudol: 07967652981**
**FB: CAFFI COLLED**

**GWASANAETH NADOLIG CYMUNEDOL**
yng Nghapel Jerusalem
Nos Sul, Rhagfyr 15
am 7.00yh

Dewch i ddathlu'r Ŵyl
yng nghwmni Côr Meibion
y Penrhyn ac eraill

Mynediad am ddim
Gwneir casgliad tuag at
achos da
CROESO CYNNES I BAWB

## Messiah, Handel



yng Nghapel Jerusalem,
21 Rhagfyr am 6.y.h.

**Kate Griffiths, Bryn Saith Marchog, Soprano**
**Samantha Lewis, Croesoswallt, Contralto**
**Alwyn Evans Machynlleth, Tenor**
**Adam Jarman, Manceinion, Bâs**
**Ensemble Gogledd Cymru**
**Graham Eccles, Organ**
**Trystan Lewis, Arweinydd**

Bydd y sawl sydd yn ymddiddori yn hanes cymdeithasol Bethesda yn gwybod bod gan capel Jerusalem draddodiad clodwiw o berfformio oratorio, yn yr un modd ag oedd gan Capel Mawr, Bethesda yn y dyddiau a fu. Eleni mae Undeb Gorawl Gogledd Cymru, sydd yn gôr o dros gant o aelodau (ac yn gyfuniad o dri chôr Trystan Lewis, sef Côr Cymysg Dyffryn Conwy, Cymdeithas Gorawl Llanelwy a Chymdeithas Gorawl yr Wyddgrug) yn dod ynghyd i berfformio campwaith Handel. Tybed faint o weithiau perfformiwyd Messiah yn Jerusalem? Gwaith cartref i rhywun! Mae capel ysblennydd Jerusalem yn cynnig ei hun i berfformiad o'r fath. "Dydi'r dolig ddim yn ddolig heb glywed performiad o'r Messiah" medd sawl un, ac felly dyma gyfle i glywed yr oratorio enwocaf yn y byd.

**Mae pris y tocyn yn rhesymol, £12 o gofio yr arlwy o unawdwyr ac offerynnwyr, a'r syniad ydi bod cyfle i bawb i ddod i glywed y Messiah. Os ydych am docyn, ffoniwch Carol Jones ar 01248 601328. Gobeithio y cawn gynulleidfa gref a chlywed campwaith Handel yn Nyffryn Ogwen unwaith eto.**

# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

**Gan André Lomozik**



RHAN 22

## 18 AC 19 OGWEN TERRACE, BETHESDA

(parhad o ran 21)

Cawn nifer o adroddiadau yn ymddangos yn y papurau newydd lle mae George Brymer yn cael ei enwi. Dyma rai ohonynt: *Y Werin*, Ebrill 3, 1886:

'APÊL GWEITHWYR CHWARELI PANTDREINIOG A BRYNHAFOD-Y-WERN, LLANLLECHID Y mae gweithwyr y chwarel gyntaf wedi bod allan o waith am un mis ar hugain gyda gobaith gwan o gael dychwelyd yn fuan. Y mae gwaith yn y chwarel arall wedi bod yn gwbl ansefydlog am y pedair blynedd diweddaf.'

Dyna sut mae'r adroddiad yn cychwyn, ond hefyd mae'n rhybuddio'r darllenwyr fod rhywrai yn defnyddio enw'r pwyllgor apêl i gasglu arian iddynt eu hunain, ac mae'r pwyllgor yn hysbysu nad oes gan unrhyw un hawl i dderbyn arian oni bai bod ganddynt lyfr wedi ei argraffu gyda'r argraff APÊL GWEITHWYR CHWARELI PANTDREINIOG A BRYNHAFOD-Y-WERN, LLANLLECHID arno. Yna cawn restr o bobl a gyfrannodd at yr apêl, ac mae George Brymer yn cyfrannu £1-0-0 lle mae'r mwyafrif wedi cyfrannu rhwng 2/6 a 5 swllt.

*Baner ac Amserau Cymru* Mehefin 25 1890: 'LLANBERIS Marwolaeth Mr W. Wynn Brymer. – Bydd yn ofidus gan liaws cyfeillion y bonheddwr uchod ddeall iddo farw nos Fercher diweddaf, yn nhŷ ei dad, Mr George Brymer, Tyddyn Helen, Caernarfon. Nid oedd yr ymadawedig ond prin ddeugain oed, ond cafodd gystudd maith am dros ddwy flynedd. Gorfodwyd ef i drosglwyddo ei fasnach eang yma drosodd i'w chwaer rhyw ddwy flynedd yn ôl. Bu yn flaenor yn y Garn, ac yn un o warcheidwaid Llanberis am flynyddoedd. Yr oedd yr ymadawedig yn frawd i'r Cynghorwr George Brymer, Bethesda. Claddwyd ef ddydd Llun, yn mynwent y Garn. Y darfodedigaeth a'i cwympodd i'r bedd mor gynnar. Cydymdeimlir yn ddwys a'i rieni a'i deulu galarus yn eu profedigaeth lem. Cyfaill'

Yn y *South Wales Echo*, Ebrill 20, 1895, tud. 4: 'WELSH NATIONAL FEDERATION' - RHESTR AELODAU Gogledd Cymru, Gogledd Caernarfon. Mr E. O. Parry, Llandudno; Parch. Tecwyn Parry, Llanberis; a Mr George Brymer, Bethesda.

Yna yn Y Genedl Gymreig, Awst 6, 1895 tud. 7. 'CYNGOR SIROL ARFON. Yn Neuadd y Frawdlys, Caernarfon, cynhaliwyd cyfarfod o'r cyngor uchod, yn y gadair Cyrnol Sackville West. Mr George Brymer, Bethesda, a gyflwynodd adroddiad y Pwyllgor Arianol.'

Yn *Y Werin*, Medi 25, 1897 tud 3: 'CYNGOR DINESIG BETHESDA. Cymerwyd y gadair gan Mr Brymer, lle bu trafod y trethi, ac darllenwyd llythyr oddi wrth Cyd-Bwyllgor Iechyd Sir Caernarfon, yn cwyno na ddarfu i'r cyngor fabwysiadu deddf y 'Cleifion Heintus', gohiriwyd trafod y mater hyd y cyfarfod nesaf.

Rhoddwyd rhybydd i'r cyfarfod nesaf y trafodir prioldeb o symud ymlaen i gael mynwent newydd (Mynwent Coetmor)? 1901.'

Yn *Y Werin* Medi 27, 1897, tud. 2, gwelwn yr hysbyseb yma o dan y pennawd:

'Y NELSON' mae Mr George Brymer yn cael ei enwi fel partner mewn busnes.

Roedd hefyd yn cael ei ganmol yn yr adroddiad am ei waith fel Ysgrifennydd Cronfa Gynorthwyol Chwarelwyr Cae Braich y Cafn.

Dyma ran o adroddiad a ymddangosoddyn *Y Llan* Mai 6 1898 tud. 3: 'Gŵyl Chwarelwyr Gogledd Cymru. Cynhaliodd Chwarelwyr Gogledd Cymru eu cyfarfod blynyddol yn Bethesda. Roedd y tywydd yn anffafriol gyda gwynt a glaw trwm ond er hynny daeth miloedd o chwarelwyr ynghyd, gan fod cwmnïau y rheilffordd wedi rhedeg cerbydau neilltuol er eu mwyn. Cafwyd gorymdaith fawreddog trwy'r pentref, a chynhaliwyd cyfarfod yn yr awyr agored, lle cyflwynwyd anrhegion i Mr Massingham, a George Brymer, Bethesda, fel cydnabyddiaeth o'u hymdrechion adeg y streic yn chwarel y Penrhyn'

Felly mae'n ymddangos fod George Brymer wedi bod yn weithgar iawn ym mywyd cyhoeddus Bethesda ers iddo gyrraedd ym mlynyddoedd cynnar 1880, ond erbyn 1901 roedd o a'r teulu wedi ymadael â Methesda ac yn byw yn Fron Dirion, plwyf Llanbeblig, ac yn ddilledydd yn cyflogi gweithwyr.

Robert Richard Jones a'i wraig oedd yn byw yn rhif 18 Ogwen Terrace erbyn 1901. Ganwyd Robert a'i wraig Hannah yn y flwyddyn 1872, ill dau ym Methesda. Cadw siop groser oedd galwedigaeth Robert hefyd. Priodwyd Robert a Hannah ar yr 21 ain o Fehefin 1894 yn swyddfa'r cofrestrydd ym Mangor. Mab John S. Jones, Braichmelyn, gosodwr yn chwarel y Penrhyn, oedd Robert, a Hannah yn ferch i John Parry, pobydd, Water Street, Bethesda. Roedd gwas o'r enw Thomas Williams yn byw gyda hwy yn 18 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1901, ac mae'n nodi ei fod yn cynorthwyo mewn siop groser. Nid oes fawr fwy o wybodaeth am Robert a Hannah i'w gael oni bai am yr wybodaeth a gawn yng Nghyfrifiad 1911. Mae'r Cyfrifiad yn nodi eu bod wedi priodi ers 16 mlynedd ond nid oedd plant wedi eu geni iddynt. Mae Thomas Williams naill ai wedi gadael neu oddi cartref ar ddydd y cyfrifiad yma.

## 19 OGWEN TERRACE, BETHESDA

Dyn o'r enw Griffith Jones o Llanllechid oedd yn byw yn rhif 19 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1871, gyda'i wraig Jane a oedd wedi ei geni ym Metws y Coed. Ganwyd Griffith yn 1828, a'i wraig yn 1825. Roedd merch ifanc o'r enw Hannah Roberts yn gweini iddynt, ac fe ganwyd hi yn 1854 yn Llanllechid. Byr iawn fu arhosiad Griffith Jones yn rhif 19 Ogwen Terrace, Bethesda oherwydd cawn gofnod yn y NWC. Mehefin 23, 1877 tud. 1 fod Griffith Jones, wedi mynd yn fethdalwr. Yna ymhen ychydig dros flwyddyn cawn gofnod o'i gladdedigaeth ym mynwent Eglwys Crist, Glanogwen ar yr 2il o Dachwedd 1878, yn 51 mlwydd oed.

Nid oes cofnod o bwy oedd yn byw yn rhif 19 Ogwen Terrace am y blynyddoedd 1881 trwodd i 1911, neu mae'r sawl a oedd yn cofnodi wedi gwneud camgymeriad gyda'r rhifau.

(i'w barhau) Y tro nesaf: rhif 20 Rhes Ogwen.

# Noson Wobrwyo Criced a Bowls

Yn noson wobrwyo'r Clwb Criced ar 4 Hydref gwelwyd y chwaraewyr llwyddiannus yn y criced yn cael eu cyhoeddi yn dilyn gwobrwyo'r chwaraewyr bowls yr un noson.

### LLWYDDIANT I'R TÎM CRICED

Diolch i Rhys Pritchard am y manylion hyn.
Bu hwn yn dymor llwyddiannus iawn i Fethesda, gyda'r tîm 1af yn ennill dyrchafiad i'r Brif Adran.



**Yn y llun canlynol gwelir chwaraewyr buddugol y timau criced a chwaraewyr gorau'r timau bowls yn cyd-sefyll yn y noson wobrwyo.**



**Carwyn Williams yn derbyn Gwobr Batio Adran 1 gan gyn-chwaraewr Lloegr, Darren Gough.**

Cynghrair Criced Gogledd Cymru ar ôl gorffen yn 2ail yn Adran 1 gyda 224 pwynt o dan gapteiniaeth Carwyn Williams. Enillodd y tîm 1af 16 gem, colli 4 gyda 2 gêm wedi eu canslo oherwydd y tywydd. Brwydrodd yr 2ail dîm drwy'r tymor mewn Adran gystadleuol iawn, o dan gapteiniaeth Byron Jones. Gorffennwyd y tymor yn gryf i sicrhau y bydd yr 2ail dîm yn aros yn Adran 3 y tymor nesaf. Chwaraeodd y timau dan 11 a dan 13 nifer o gemau, gyda nifer o berfformiadau da yn ystod y tymor. Y tymor nesaf bydd y clwb yn ychwanegu tîm dan 15 hefyd.

Llongyfarchiadau i Amos Owen a Morgan Williams sydd wedi eu dewis i gynrychioli Gogledd Cymru dan 10. Mae'r tîm Merched yn chwarae mewn cynghrair tu fewn ar hyn o bryd ac wedi chwarae dwy gêm hyd yma. Bydd y clwb yn rhedeg amryw o dimau'r tymor nesaf (dau dîm dydd Sadwrn, sawl tîm ieuenctid ar draws sawl grŵp oedran a thîm Merched). Mae'r clwb bob tro yn croesawu chwaraewyr newydd o unrhyw brofiad a safon, yn ogystal â rhoi cyfleoedd i wirfoddoli a noddi yn y clwb. Anfonwch neges i ddarganfod mwy.

### GWOBRAU CRICED 2024

Gwobr Batio Tîm cyntaf - Carwyn Williams - 804 rhediad ar gyfartaledd o 89.44 (sgôr uchaf o 112) ac mae Carwyn hefyd wedi ennill tlws batio Adran 1, Cynghrair Criced Gogledd Cymru. Llongyfarchiadau calonnog iddo am ei gamp.
Gwobr Bowlio Tîm Cyntaf - Andrew Day - 39 wiced ar gyfartaledd o 10.13 (ffigyrau gorau o 6 am 22).
Chwaraewr y Capten (Tîm Cyntaf) - Nicholas Parry 792 i'r clwb y tymor yma wedi mynd heibio 8,000 rhediad i'r clwb yn ei yrfa. Nick hefyd a gymerodd y nifer mwyaf o ddaliadau fel wicedwr yn Adran 1 y tymor yma - 21 daliad.
Gwobr Batio 2ail dîm - Ashley Rowlands - 270 rhediad ar gyfartaledd o 22.5 (sgôr uchaf o 53).
Gwobr Bowlio 2ail dîm - Sopan Patil - 28 wiced ar gyfartaledd o 16.75 (ffigyrau gorau o 3 wiced am 20 rhediad).
Chwarewr y capten - Ail Dîm - Steffan Job - chwaraewr ymroddgar sy'n rhoi 100% bob wythnos. Mae Steffan yn rhan pwysig o'r garfan gyda'r agwedd iawn bob amser. Er mai newydd ddechrau llynedd wnaeth o, mae wedi dangos penderfyniad i wella ar bob elfen o'r gêm.



SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

Dilynwch Llais Ogwan ar X **@Llais_Ogwan**

# Bowlio efo Bys a Bawd

**CLWB CRICED & BOWLIO BETHESDA**

## NOSON WOBRWYO DAN OFAL BRYNMOR JONES

Yn Noson Wobryo Clwb Bowlio Bethesda ar Nos Wener y 4ydd o Hydref cyflwynwyd y sylwadau a'r gwobrau yn llyfn ac yn broffesiynol i'r timau a'r unigolion llwyddiannus gan Brynmor Jones, capten tîm Nos Fercher.

Croesawodd Brynmor yr aelodau a diolchodd am y gwahoddiad i rannu'r noson efo'r cricedwyr a chael cyflwyno gwbrau ar y cyd. Diolchodd i aelodau'r Clwb Bowlio am eu cefnogaeth i'r clwb a nododd yn arbennig gyfraniad y capteiniaid eu hunain am eu gwaith caled a diflino. Ychwanegodd Brynmor bod y tymor wedi bod yn un llwyddiannus iawn i'r clwb a dylid llongyfarch pawb am eu cyfraniad i'r llwyddiant hwnnw.



**O'r chwith i'r dde y cricedwyr buddugol: Sopan Patil, Nicholas Parry, Andrew Day, Ashley Rowlands a Carwyn Williams:**
**Buddugwyr y timau bowls oedd: Callum Sorfleet, Ryan Short, Sion Guto Roberts a George Owen**

## CYFLWR ARDDERCHOG Y LAWNT


Ni anghofiodd y cyflwynydd gyfraniad y Tirmon, John (JR) Roberts a'r aelodau fu'n ei helpu i gynnal a chadw'r lawnt mewn cyflwr mor dda. "Heb eu hymroddiad nhw ni fyddai'n bosib cynnal tîm bowlio," meddai Brynmor.

Mae'r cyfrifoldeb yn golygu oriau o waith trin a thorri yn wythnosol. "Yn wir," meddai, "di'r lawnt erioed wedi edrych mor dda," cyn ychwanegu, "does dim syndod bod lawnt Bethesda wedi cael ei dewis gan neb llai na Chymdeithasau Bowlio Lawntiau Cribog Prydain a Chymru i gynnal Pencampwriaeth Ieuenctid Sirol Drakes Pride, lle gwelwyd Cymru'n erbyn Sir Amwythig ar 9 Mehefin.



Aeth ymlaen i ddweud, "Hefyd, rydym wedi cynnal gem(au) Môn Menai pryd y gwelwyd lawnt Bethesda yn cael ei defnyddio ar ddau achlysur fel man cyfarfod Tîm Bowlio Rhanbarthol Gogledd Cymru. Terfynodd Brynmor ei sylwadau ar y lawnt drwy sôn am y gwelliannau i'r tir o gwmpas y lawnt, a olygodd dorri'r coed ac ymestyn y maes parcio.

## ARIAN / CYLLID



Maldwyn Pritchard

Wrth longyfarch y Tirmon a'i griw diolchodd Brynmor i Maldwyn Pritchard, trysorydd y Clwb Bowlio a Chapten poblogaidd y chwaraewyr hŷn, am ei waith yn derbyn ac yn cadw trefn ar gyllid y clwb. Mae'r trysorydd yn hen law ar gadw trefn ar arian gan ei fod yn drysorydd mewn cymdeithas arall yn Nyffryn Ogwen hefyd. Ar yr un pryd nododd na allai Maldwyn wneud y cyfan ei hun a bod rhaid cofio am yr aelodau sy'n helpu i godi arian drwy werthu rafflau a chasglu pres te yn wythnosol.

## TE A LLUNIAETH

**Diolch i griw y gegin**

Ni ellid anghofio'r aelodau sy'n helpu yn y gegin yn ystod gemau bowls, yn brysur yn gwneud te, ac yn prynu a gwerthu bisgedi neu greision ac ati. Mae diolchiadau'r clwb yn arbennig i'r merched Diane, Gwen, Wendy a Delyth sydd wedi bod yn gyfrifol am baratoi y lluniaeth blasus tu hwnt o de, coffi, diodydd meddal a brechdanau neu gacennau. ar gyfer achlysuron pwysig fel Cystadleuaeth Bowlio Agored Bethesda. Ardderchog wir!

## CYSTADLEUAETH AGORED BETHESDA

Diolch i bawb fu'n ymwneud â threfnu'r gystadleuaeth uchod oherwydd mae hi'n dod ag arian sydd a'i wir angen i'r coffrau. Yn y cyswllt hwn dylid sôn am waith Siôn a Catrin fu â rhan flaenllaw yn y gwaith o drefnu ac o redeg y gystadleuaeth y effeithiol. Yn y cyswllt hwn ni edllir anghofio cyfraniad enfawr ein noddwyr," meddai Brynmor.
Fel y dywedais yn gynharach - tymor llwyddiannus iawn:

**Tim Nos Lun: Capten: Callum Sorfleet**

Dod yn ail i Gricieth yn y gynghrair. Cricieth 124 pwynt a Bethesda 123 - agos iawn! Ond yn sicr ennill y tlws sef Cwpan Whitworth ydy'r uchafbwynt trwy guro Llanfairpwll yn y ffeinal ar noson fythgofiadwy yng Nghricieth. Diolch arbennig i'n capten, Callum, am gadw'i ben ac ysbrydoli pawb ar y noson.

**Tim Dydd Mawrth: Bowlwyr Hŷn Gwynedd: Capten: Maldwyn Pritchard**

Tymor Ardderchog o dan ofal Capten ysbrydoledig. Mae'r tîm hwn o dan eu capten gwych wedi ennill dyrchafiad i Adran 'A'. Y cyfan ellir ei ddweud ydy, "Pa syndod o dan arweiniad mor dda?" Yn ôl rhai aelodau mae'r sesiynau ymarfer a hyfforddiant o dan arweiniad Maldwyn wedi bod yn addysg i bawb ........!

Rhag ofn i bennau rhywrai ddechrau chwyddo'n ormodol rhaid nodi mai ail i Gaergybi oedd Bethesda yn y gynghrair, gyda Chaergybi'n darfod gyda 158 pwynt a Bethesda'n ail gyda 130 pwynt.

"Da iawn hogia," meddai Brynmor i fonllefau o gymeradwyaeth gan y gynulleidfa yn y cyfarfod gwobrwyo!

**Tîm Nos Fawrth: Tîm Siroedd Cymru. Capten: Catrin Gruffydd**

Y tro cyntaf yn hanes y clwb i Fethesda gystadlu yn y gynghrair sy'n cynnwys rhai o'r chwaraewyr gorau yng Ngogledd Cymru. Diolch yn fawr iawn Catrin am gymryd y cyfrifoldeb o fod yn gapten. Dysgu llawer yn ystod y tymor o ran gwella perfformiad neu gêm unigolyn ac yn edrych ymlaen at 2025!

**Tim Nos Fercher: Capten: Brynmor Jones**

Dod yn ail yn y gynghrair. Beaumaris A 150pt a Bethesda 121pt. Yr unig gêm i Beaumaris golli oedd adre yn erbyn Bethesda. Llongyfarchiadau i Ryan Short ar ennill cyfartaleddau'r gynghrair eleni.

**Tim Dydd Sadwrn: Capten: Sion G Roberts.**

Dod yn 3ydd yn y Gynghrair Siroedd Gogledd Cymru

**Ch: 18 Ennill: 10 Colli: 8 - 153pt**

Y flwyddyn nesa' amdani hogia ac anelu am Adran 'A'.

**Diolch i H. Brynmor Jones am ei sylwadau a'i gyfraniad i'r golofn hon y mis yma.**




**Denzil Jones yn derbyn ei wobr gan Maldwyn, y capten poblogaidd, am ddod yn uchaf yn yr holl gynghrair i fowlwyr hŷn.**



**Brynmor Jones, Capten tîm nos Fercher a chyflwynydd y seremoni wobryo**

# CROESAIR



**I LAWR**

1 Yn nes o lawer (4)
4 Gwybodus onide, a llu sydd yn hyddysg hefyd (6)
8 Dail yr amser yma o'r flwyddyn (7)
9 Ar ei feic rywsut yr aiff y gŵr duwiol i'r llan (5)
10 Pennaeth a chadair prifysgol ganddo (4)
11 Fel y Covid 19 (8)
13 "- - - - -   - - - - mwy", dihareb am fêl efallai (5,4)
17 Anodd gwneud hyn os y cei rwyg llaes yn dy gynfas (8)
19 Math o fwyd meddal (4)
21 Bravo ! Cana eto ! (5)
22 1% (2,1,4)
23 Rhwng palu a thyfu (6)
24 Hydd (4)

**I LAWR**

2 Trallod a thrais (7)
3 Dresel (4)
4 Hoff ganwr y Tebot Piws a'r ferch enwog y canai amdani (4,3,1,5)
5 Fodan ddryslyd a hapus, ond byth yn ddedwydd (8)
6 Yr hyn a roir i gychwyn pob taith (2,3)
7 Glywi di ogla'r bwyd ond yn ramadegol gywir (5)
8 Mewn cymysgfa dda i wneud 19 Ar Draws, ond nid i'r un yn y canol (4)
12 Rhwng Cerrigydrudion a Phentrefoelas (8)
14 Nid "eisteddfa'r gwatwarwyr" ond un y diaconiaid (3,4)
15 Bloedd am hen gylchgrawn pop (5)
16 Trwy fod yn gywir, - - - - yn siwr o fod yn ti dy hun (4)
18 Lle diogel i Elin guddio efo'r cant (5)
20 Celfi bwyta (4)

Atebion erbyn 6ed Rhagfyr 2024 fan *bellaf (ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Tachwedd', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**ATEBION CROESAIR HYDREF 2024**

**AR DRAWS** 6 Cellwair, 7 Llacio, 8 Drama, 10 Darparu, 12 Hybarch, 14 Eluned, 16 Wyt, 17 Drigfa, 19 Offeren, 22 Oblegid, 24 Addysg, 26 Siwan, 27 Annifyr

**I LAWR** 1 Medr, 2 Cadair, 3 Credu, 4 Campau, 5 Pier, 8 Dihidio, 9 Asbri, 11 Undonog, 13 Chwa, 14 Eto, 15 Norwy, 18 Gwefan, 20 Ffrainc, 21 Ydlan, 23 Briw, 25 Swydd

Dyma'r ychydig wallau a gafwyd y tro yma, 'offeryn' yn lle 'offeren' (19 Ar Draws), 'credo' yn lle 'credu' (3 I Lawr), 'diystro' yn lle 'dihidio' (8 I Lawr), ac 'ymbarch' yn hytrach na'r ateb cywir 'hybarch' (12 Ar Draws)

Llongyfarchiadau i'r canlynol am atebion hollol gywir : Dafydd Roberts, Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gill King, Mynydd Llandygai; Myrddin Williams, Capel Uchaf Clynnog; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; M. A. Jones, Rachub; John Ffrancon Griffith, Abergele, Gareth Oliver, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Elizabeth Buckley, Tregarth; Iona Williams, Llanddulas; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bethesda; Medi Michael, Bangor; Huw a Gwenno, Gerlan

Da iawn chi Gareth Oliver, Ty'n Clawdd, Tregarth, Bangor LL57 4AL am fod y cyntaf o'r het i dderbyn y wobr a'r clod y mis yma.


**MODURDY FFRYDLAS**

Profion M.O.T.

**PERCHNOGION**

A.LL. ac R.W. WILLIAMS

**Stryd Fawr, Bethesda**

PROFION M.O.T.

GWASANAETH ATGYWEIRIO TEIARS A BATRIS

GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN

Ffôn: 600 723

E-bost: ffrydlas@btconnect.com


Dilynwch Llais Ogwan ar X
**@Llais_Ogwan**

